


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

ADRODDIAD BLYNYDDOL a Datganiadau Ariannol 2024-2025

Rhif elusen: 1149535

Cyflwyniad	T2
Aelodaeth y Cyngor	T5
Statws Cyfreithiol	T6
Cynllun Strategol PCYDDS	T7
Adolygiad yr Is-Ganghellor	T8-13
Prif Risgiau ac Ansicrwydd	T14
Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol	T16-27
Datganiad Buddion Cyhoeddus	T27
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol	T28-33
Datganiad Rheolaeth Fewnol	T32
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor	T33
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	T34-37
Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu	T38-45
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr	T47
Datganiad o Newidiadau mewn Refeniw	T49
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	T51
Datganiad Llif Arian Parod	T51
Nodiadau i'r Cyfrifon	T52-82

The background of the slide is a faded, light gray image. It features a close-up of a woman's face on the left side, looking slightly to the right. On the right side, there is a hand holding a pen, positioned as if writing. The overall aesthetic is clean and professional.

Cyflwyniad



Emlyn Dole

Cadeirydd y Cyngor

Ar ran Cyngor y Brifysgol, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i'r Uwch Dîm Arwain, ein staff ymroddedig a'n myfyrwyr am eu gwaith caled a'u hymrwymiad parhaus. Mae eu hymdrechion eleni wedi bod yn ganolog i helpu'r Brifysgol i ymdopi'n effeithiol â chyfnod o her a newid, gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparu profiad rhagorol i'n myfyrwyr.

Fel llawer o sefydliadau ar draws y sector Addysg Uwch, rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, rwy'n falch o ddweud ein bod, trwy weithredu pendant a phenderfyniad cyffredin, wedi gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Brifysgol bellach mewn sefyllfa gryfach a mwy sefydlog, gyda chynlluniau clir, seiliedig ar dystiolaeth, ar waith i adeiladu ar ein cryfderau a sicrhau llwyddiant hirdymor.

Gan weithio ochr yn ochr â'r Is-Ganghellor a'r Uwch Dîm Arwain, mae'r Cyngor wedi cefnogi datblygu Cynllun Blynyddol cynhwysfawr, seiliedig ar ddata, a byddwn yn cymeradwyo Cynllun Strategol sefydliadol newydd yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r fframwaith hwn yn llywio blaenoriaethau'r Brifysgol ac yn sail iddo mae llywodraethu cadarn a stiwardiaeth ariannol.

Mae newid ystyrion yn aml yn gofyn am benderfyniadau anodd, ond rydym yn hyderus bod y Brifysgol mewn lle cryfach na blwyddyn yn ôl, a'i bod yn parhau i fod â ffocws ac yn ymrwymedig i'w chenhadaeth. Mae'r Cyngor ei hun wedi cymryd rhan mewn Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu cynhwysfawr eleni a bydd ymateb i'r canlyniadau yn ein galluogi i wella ein harferion llywodraethu ymhellach wrth i ni symud i gam nesaf datblygiad strategol y Brifysgol.

Mae gan ein Prifysgol gysylltiad dwfn â lle, gyda threftadaeth a diwylliant Cymreig wrth galon ein cymuned. Rydym yn gwerthfawrogi'r Gymraeg fel mynegiant hanfodol o'n hunaniaeth, ac mae'r sylfaen ddiwylliannol gref hon yn helpu i greu amgylchedd lle gall pob myfyriwr ffynnu.

Mae'r parch dwfn hwnnw at le wedi bod yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y penderfyniadau y bu'n rhaid eu gwneud ynglŷn â'n campws yn Llambed. Rydym yn llwyr gydnabod arwyddocâd hanesyddol Llambed fel rhan sefydlol o'n Prifysgol, yn ogystal ag fel symbol o'n treftadaeth ddiwylliannol ac addysgol. Gwnaed y penderfyniadau, er eu bod yn anodd, gyda gofal mawr i ddiogelu dyfodol y Brifysgol, ac rwyf wedi bod yn hynod falch o'r modd y mae ein cymuned wedi ymateb gyda dealltwriaeth, gwytnwch, ac ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod ein treftadaeth yn parhau i fod yn rhan fyw o'n dyfodol.

Fel Cadeirydd y Cyngor rwyf wedi gwerthfawrogi'n fawr fewnwelediad a chefnogaeth fy nghydweithwyr ar y Cyngor. Hoffwn ddiolch iddyn nhw a phawb sy'n cefnogi ein pwyllgorau am eu cyfraniad a'u hymroddiad parhaus. Mae eu rôl wrth sicrhau llywodraethu a chraffu effeithiol wedi bod yn hanfodol wrth i ni barhau i ymateb i heriau ar draws y sector.

Does dim amheuaeth bod y sector Addysg Uwch yn parhau i wynebu amseroedd anodd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n parhau i fod yn gyson yw'r effeithiau trawsnewidiol a gaiff ar unigolion ac ar lesiant cymdeithasol ac economaidd ehangach ein cymunedau. Rwy'n hynod falch o'r rôl y mae'r Brifysgol hon yn ei chwarae wrth ddarparu cyfleoedd sy'n newid bywydau i fyfyrwyr o bob oedran a chefnidir.

Mae wedi rhoi boddhad arbennig gweld profiadau ein myfyrwyr yn cael eu hadlewyrchu mor gadarnhaol yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025, ac yn ein cydnabyddiaeth fel Prifysgol y Flwyddyn y Times a'r Sunday Times am Ansawdd Addysgu 2026. Mae hwn yn adlewyrchiad pwerus o ymroddiad ac angerdd cydweithwyr ar draws ein timau academaidd a gwasanaethau proffesiynol, ac roedd yn bleser gweld y gwaith hwn yn cael ei gydnabod â'r anrhydeddau cenedlaethol hyn.

Un o uchafbwyntiau gwirioneddol y flwyddyn academaidd yw mynychu ein seremonïau graddio. Mae'r rhain bob amser yn achlysuron llawen a theimladwy, lle gwelwn yn uniongyrchol yr effaith y gall addysg uwch ei chael ar unigolion a chymunedau. Mae'n anrhydedd rhannu'r eiliadau hynny gyda'n myfyrwyr, eu teuluoedd, a'r staff sydd wedi eu cefnogi ar hyd y ffordd, oherwydd y seremonïau graddio hyn sy'n ein hatgoffa pam mae ein gwaith yn bwysig.

Emlyn Dole
Cadeirydd y Cyngor



Yr Athro Elwen Evans, CB
Is-Ganghellor

Er gwaethaf heriau parhaus ar draws sector addysg uwch y DU, mae'r flwyddyn academiaidd ddiwethaf wedi bod yn un o gynnydd ystyrlon a hyder newydd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).

Gydag ymrwymiad cryf i lwyddiant myfyrwyr, cynaliadwyedd ariannol, a thrawsnewid strategol yn sylfaen iddi, mae ein Prifysgol wedi dod allan o gyfnod cythryblus gyda chyfeiriad clir a rhagolygon cadarnhaol. Rwy'n hyderus bod PCYDDS yn cychwyn ar gyfnod newydd gydag optimistaeth, gwytnwch ac uchelgais gwirioneddol.

Fel y dengys yr adroddiad hwn, gorffennodd y Brifysgol y flwyddyn academiaidd gyda gwarged ariannol. Mae hyn yn ganlyniad ymdrech gydweithredol, cynllunio disgybledig, a gweithredu ar y cyd ar draws y sefydliad. Er bod doethineb ariannol yn parhau i fod yn hanfodol, rwy'n hyderus bod sylfeini cryf yn eu lle ar gyfer ein llwyddiant yn y dyfodol.

Daethpwyd hefyd i gytundeb ailariannu pwysig, gyda threfniant ariannol hirdymor mwy cynaliadwy yn lle ein cyfleuster gorddrafft blaenorol. Mae'r bartneriaeth newydd hon gyda banc y Brifysgol nid yn unig yn gwella ein sefydlogrwydd ariannol ond hefyd yn galluogi buddsoddi strategol a reolir yn ofalus dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r profiad myfyrwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein cenhadaeth i drawsnewid addysg a bywydau, a gallwn i gyd fod yn falch bod ein hymrwymiad i'n myfyrwyr wedi'i gysnabod unwaith eto. Mae cael eich enwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu 2026 gan y Times a'r Sunday Times, a chael eich rhestru'n 1af yng Nghymru ac yn 2il yn y DU yn nadansoddiad The Times o Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025, yn gyflawniad anhygoel sydd wir yn adlewyrchu ymroddiad ac angerdd ein staff. Rwy'n hynod ddiolchgar i'm holl gydweithwyr am eu hymrwymiad parhaus i sicrhau bod pob myfyriwr yn PCYDDS yn cael ei gefnogi i lwyddo.

Mae ein darpariaeth brentisiaethau hefyd wedi cael ei chanmol yn ei hadolygiad ansawdd allanol am gynnydd profiadau dysgu byd go iawn a ddarperir gan staff angerddol, arbenigol yn y sector. Mae ein ffocws bob amser wedi bod ar ddarparu addysgu rhagorol a phrofiad addysgol trawsnewidiol, ac mae'r anrhydeddau hyn yn dyst i gryfder y genhadaeth honno.

Eleni sefydlwyd Medr, y corff cenedlaethol newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru gyda mandad i lunio llwybrau cydlynol rhwng addysg bellach ac addysg uwch. Mae uchelgais Medr yn cyd-fynd yn agos â'n strwythur unigryw ni fel grŵp sector deuol sy'n ymgorffori Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr AB, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer cynnig ôl-16 cydlynol trwy ein hadolygiad parhaus o'r cwricwlwm. Ein huchelgais yw agor llwybrau newydd trwy addysg i greu rhagor o gyfleoedd i fwy o bobl, ac i ddiwallu anghenion sgiliau ein rhanbarth a Chymru.

Yn dilyn y penderfyniad i adleoli ein darpariaeth Dyniaethau o Lamed i Gaerfyrddin, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau dyfodol cynaliadwy ac ystyrlon ar gyfer Campws Llamed. Mae grŵp rhanddeiliaid wrthi'n archwilio cynigion newydd, a arweinir gan y gymuned ar gyfer addysg, datblygu sgiliau, a chydweithredu rhanbarthol. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion i archwilio sut y gall campws Llamed chwarae rhan allweddol wrth ehangu hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau ar draws y rhanbarth, menter sy'n cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau Medr.

Wrth i sector addysg uwch y DU barhau i ymateb i'r pwysau ariannol, rwy'n falch o'r ffordd y mae PCYDDS nid yn unig yn addasu i amgylchiadau ond yn arwain newid. Ar ôl cwblhau ei strwythur benthyca hirdymor yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol yn sefydlog yn ariannol, a chanddi ffocws strategol ac wedi'i gwreiddio yn ei chymuned, yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm holl gydweithwyr, aelodau Cyngor y Brifysgol ac, wrth gwrs, ein myfyrwyr am eu cefnogaeth barhaus, ac am y ffyrdd niferus y maent wedi cyfrannu at gyflawniadau'r Brifysgol eleni.

Yr Athro Elwen Evans CB
Is-Ganghellor

Aelodaeth y Cyngor

Yn unol â Siarter Frenhinol y Brifysgol, y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol ac mae'n gyfrifol, drwy Statud, am gymeradwyo'r cynlluniau strategol ar gyfer y Brifysgol ac am lywodraethu a rheoleiddio ei chyllid, ei chyfrifon, ei buddsoddiadau, ei heiddo, ei busnes a'i materion. Nodir ei brif gyfrifoldebau yn ordinhadau'r Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cynnwys llywodraethwyr annibynnol, llywodraethwyr staff a llywodraethwyr myfyrwyr a benodwyd o dan Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol, y mwyafrif ohonynt yn anweithredol. Yn ogystal, mae

aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr y Brifysgol.

Mae aelodau corff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, yn ymddiriedolwyr y Brifysgol. Mae'r rheiny a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn (hyd at gyfarfod y Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol) wedi'u rhestru isod. Darperir presenoldeb (%) yng nghyfarfodydd cymwys y Cyngor yn 2024/25 mewn cromfachau.

Aelod Bwrdd	Categori	Statws	Presenoldeb (%)
Emlyn Dole	Cadeirydd	Annibynnol	100%
Yr Athro Elwen Evans, CB	Is-Ganghellor	Annibynnol	100%
Justin Albert, OBE	Annibynnol	-	40%
Natalie Beard	Myfyriwr	Ymddiswyddodd 30.06.2025	100%
Richard Bills	Annibynnol	Penodwyd 01.07.2025	100%
Dr Tracy Cruikshank	Staff	-	80%
Gwyneira Davies	Myfyriwr	Penodwyd 01.07.2025	100%
Maria Dinu	Myfyriwr	Ymddiswyddodd 30.06.2025	100%
John Edge	Annibynnol	-	100%
Yr Athro Kyle Erickson	Staff	-	100%
Dr Deborah Hughes	Staff	Penodwyd 01.08.2024	80%-
Uzo Iwobi	Annibynnol	Ymddiswyddodd 31.01.2025	40%
Rowland Jones	Annibynnol	-	800%
Jacqui Kedward	Annibynnol	Penodwyd 31.10.2025	-
Timothy J Llewelyn	Annibynnol	-	100%
Chris Martin	Annibynnol	Penodwyd 15.11.2025	-
Richard Norton	Annibynnol	Penodwyd 15.11.2025	-
Jonathan Pugh	Staff	Penodwyd 01.11.2025	-
Geraint Roberts	Annibynnol	-	80%
Nigel Roberts	Annibynnol	-	100%
Emlyn Schiavone	Annibynnol	-	40%
Katrin Shaw	Annibynnol	Penodwyd 01.01.2025	100%
Dr Liz Siberry, OBE	Annibynnol	-	60%
Jennifer Taylor	Myfyriwr	Penodwyd 01.07.2025	100%
Sarah Clark	Clerc ac Ysgrifennydd		100%

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol ddiffiniad annibynnol a ddatblygwyd gan y sector mewn ymateb i Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru. Nid yw aelodau annibynnol yn fyfyrwyr cofrestredig neu staff y Brifysgol ac mae eu penodiad a'u cyfrifoldebau yn gyson â'r diffiniad hwn. Adolygir a diweddarir Cofrestr gyhoeddedig o Fuddion yr Aelodau yn flynyddol, a disgwylir i aelodau nodi'n benodol ar ddechrau a diwedd pob cyfarfod unrhyw faterion y gallai eu buddiannau effeithio arnynt. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y Datganiad Llywodraethu Corfforol.



Emlyn Dole



Yr Athro Elwen Evans CB



Dr Tracy Cruickshank



Dr Elizabeth Siberry OBE



John Edge



Yr Athro Kyle Erickson



Dr Deborah Hughes



Rowland Jones



Timothy J Llewelyn



Geraint Roberts



Nigel Roberts



Emlyn Schiavone



Jennifer Taylor



Richard Bills



Gwyneira Davies



Katrin Shaw

Ymgorfforir **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS)** gan Siartr Frenhinol. Y fersiwn fwyaf diweddar o'i chyfansoddiad yw'r Siarter Atodol a seiliwyd gan y Cyfrin Gyngor ar 28 Medi 2012, yn dilyn uno cyfansoddiadol â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe.

Ystyrir bod **Coleg Prifysgol y Drindod Cyfyngedig (TUC)** yn cael ei reoli gan PCYDDS, gan mai PCYDDS yw ei hunig aelod.

Mae **Coleg y Drindod** yn ymgorffori gwaddol gwreiddiol 1848 ac, fel elusen addysg, mae'n ymgorffori asedau tir ac adeiladau ynghyd ag unrhyw arian elusennol sydd wedi cronni i'r elusen. Nid oes cysylltiad perchnogaeth uniongyrchol rhwng PCYDDS a Choleg y Drindod. Fodd bynnag, bernir ei fod yn cael ei reoli gan PCYDDS yn rhinwedd y ffaith mai TUC yw'r unig ymddiriedolwr.

Mae **Eclectica Drindod** yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfrannau, a sefydlwyd i ymgymryd â rôl sy'n darparu gweithgarwch Trydedd Genhadaeth yn fwy effeithiol i PCYDDS. Ystyrir bod Eclectica Drindod yn cael ei reoli gan PCYDDS gan mai TUC yw ei unig aelod (a PCYDDS yw unig aelod TUC) ac mae ganddo'r pŵer i benodi cyfarwyddwyr.

Mae **UWTSD Learning Centres Limited** yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS.

Mae **UWTSD Investments Limited** yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS.

Mae'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant heb gyfalaf cyfrannau. Mae'n ymgymryd â gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion, gan roi arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion. PCYDDS yw unig aelod y cwmni.

Mae **Coleg Sir Gâr** yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau, sy'n ymgymryd â darparu addysg bellach ac addysg uwch. PCYDDS yw unig aelod y cwmni.

Mae **Coleg Ceredigion** yn gwmni preifat cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau, sy'n ymgymryd â darparu addysg bellach. Coleg Sir Gâr yw unig aelod y cwmni, a bernir ei fod yn cael ei reoli gan PCYDDS fel unig aelod Coleg Sir Gâr.

Mae **Mentrau Creadigol Cymru Limited** yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS. Fe'i sefydlwyd i weithredu canolfan cyfryngau digidol yng Nghanolfan S4C Yr Egin, ger campws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin. Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r ganolfan yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2019.

Mae **UW Centre for Advanced Batch Manufacture Limited**, yn gwmni preifat. Mae gan y Brifysgol fuddiant rheolaethol o 51% yn y cwmni gyda Phrifysgol Cymru yn dal y 49% sy'n weddill.

Mae **OSTC Trinity St David LLP**, yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, mae gan y Brifysgol gyfran o 50% yn yr endid gyda'r 50% arall yn eiddo OSTC Limited.

Mae **UWTSD Innovation Centres Limited** yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i PCYDDS ac ni wnaeth fasnachu yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Strategol PCYDDDS

Mae Cynllun Strategol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (2017-25) yn gwneud ymrwymiad i'w dysgwyr ac yn benodol i Gymru, ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith drwy ei gwerthoedd a'i chymeriad arbennig.

Oherwydd y newid mewn uwch arweinyddiaeth, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo ymestyn y Cynllun Strategol i gwmpasu'r cyfnod 2025. Mae Cynllun Strategol dilynol yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i Gyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo yn ystod y flwyddyn gyfredol. Bydd y cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2026.

Wrth adolygu'r cynllun strategol, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynllun busnes gyda 5 parth: Addysg a'r Profiad Myfyrwyr; Recriwtio: Cartref a Rhyngwladol; Pobl, Sefydliad a Diwylliant; Yr Ystâd Ddigidol a Ffisegol; Ymchwil a Chenhadaeth Ddinesig. Mae'r Brifysgol yn ystyried y rhain fel y meysydd craidd ar gyfer cyflawni cenhadaeth y Brifysgol.

Gweledigaeth:

Ein gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl wrth galon popeth a wnawn. Yn ganolog i'n gweledigaeth mae hyrwyddo a gwreiddio system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefnidir, ac yn ysgogi datblygiad economaidd yn ein rhanbarth, ledled Cymru a'r tu hwnt.

Cenhadaeth:

Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau.

Blaenoriaethau Strategol:

1. Rhoi dysgu'n gyntaf
2. Cynnal rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil gymhwysol
3. Creu cyfleoedd drwy bartneriaethau
4. Cynnal Prifysgol Cymru

Galluogwyr:

Yn ogystal, mae'r Cynllun Strategol yn nodi saith galluogwr allweddol i'w cyflawni i gefnogi gwireddu'r blaenoriaethau strategol. Y rhain yw:

1. Cynnal diogelwch ariannol;
2. Cefnogi, annog a datblygu ein pobl;
3. Darparu stadau ac isadeileddau o safon uchel;
4. Cynnal llywodraethu da;
5. Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol;
6. Hyrwyddo cydraddoldeb; a
7. Cheisio gwelliant parhaus.

Gwerthoedd:

Addysgu ardderchog wedi'i llywio gan ysgolheictod ac arfer proffesiynol, ac ymchwil cymhwysol sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a'r tu hwnt.

Cynwysoldeb, drwy ddileu rhwystrau rhag cyfranogi a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Cyflogadwyedd a chreadigrwydd, trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i gael cyflogaeth ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.

Cydweithio drwy berthnasau strategol, gweithio gydag eraill i ddarparu cyfleoedd addysgol a masnachol a sicrhau bod Cymru'n cael ei chysylltu â'r byd ehangach.

Datblygu cynaliadwy, drwy ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a thrwy ymgorffori'r egwyddor hon yn systematig yn ein dull o addysgu a dysgu.


Y cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang, drwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd rhyngwladol i'n dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.

Cymru a'i chymeriad arbennig, drwy ymgorffori nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.





Adolygiad yr Is-Ganghellor



Adolygiad yr Is-Ganghellor

Adolygiad o'r flwyddyn

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cael eu cyhoeddi ar adeg heriol i'r sector addysg uwch. Mae prifysgolion y DU yn wynebu pwysau ariannu sylweddol, cystadleuaeth gynyddol, llai o gefnogaeth gan y llywodraeth, dirywiad cyflym yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn y DU, a chostau gweithredu cynyddol. Mae'r sector hefyd yn dal i ddod dros effeithiau a chanlyniadau pandemig y Covid. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r rhan fwyaf o brifysgolion ledled y DU wedi cyhoeddi mesurau arbed costau, gan gynnwys cau cyrsiau a thorri swyddi. Nid yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ddiogel rhag yr heriau hyn ond mae wedi gweithredu mesurau sydd wedi rhoi ein Prifysgol mewn sefyllfa gref, er gwaethaf y pwysau parhaus.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos unwaith eto gryfder a gwytnwch ein cymuned brifysgol gyfan ac mae llawer y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono. Rydym wedi parhau i gyflawni effaith ystyrllon ar draws addysg, partneriaethau, ymchwil ac arloesi, a rhyngwladoli.

Profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr

Mae ymrwymiad ein Prifysgol i ansawdd y profiad myfyrwyr yn cael ei gefnogi gan ddulliau arloesol o Ddysgu ac Addysgu ac amrywiaeth o wasanaethau cymorth proffesiynol. Mae ein staff a'n myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol, cefnogol a diogel i bob myfyriwr.

Mae ein llwyddiant eleni wedi arwain at enwi PCYDDS yn Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu 2026 gan y Times a'r Sunday Times. Yn ogystal daeth y Brifysgol yn 2il yn y DU am foddhad myfyrwyr gan y Times, Times Higher Education a'r Daily Mail, yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025.

Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth myfyrwyr ymatebol i gynorthwyo myfyrwyr â gofynion bywyd modern fel myfyrwyr. Mae gwasanaethau allweddol yn cynnwys llesiant, cymorth dysgu a chymorth ariannol; ychwanegir at y rhain gan dîm yr Hwb Myfyrwyr sy'n darparu gwasanaeth digidol a ffisegol i fyfyrwyr sy'n chwilio am wybodaeth neu sydd angen help i gael mynediad at gymorth arbenigol.

Mae ein holl wasanaethau myfyrwyr wedi gweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael mynediad at gymorth, gyda'r galw am y tîm llesiant yn cynyddu traean dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae pob myfyriwr sy'n ceisio cymorth llesiant wedi cael ei weld gan gynghorydd o fewn deg diwrnod, gydag achosion â blaenoriaeth yn cael eu gweld yr un diwrnod, neu'r diwrnod wedyn.

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yn parhau i gefnogi myfyrwyr presennol a graddedigion diweddar i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae digwyddiadau rhwydweithio pwnc-benodol a darparu gweithgareddau lleoliadau myfyrwyr wedi bod yn arbennig o boblogaidd trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae ein prosiect cyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi rhagori ar ei darged, gyda'r Brifysgol yn darparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu nodau datblygu gyrfa.

Mae'r Brifysgol hefyd yn parhau i wella'r profiad myfyrwyr drwy annog cyfranogiad mewn cyfleoedd symudedd rhyngwladol, a alluogir drwy gynlluniau Taith yng Nghymru a Turing yn y DU. Yn 2024-25, fe wnaethom gefnogi 79 o fyfyrwyr a 2 aelod o staff gyda chyfleoedd symudedd yn amrywio o semester dramor i interniaethau pythefnos yng Ngogledd America, Ewrop, Tsieina a Japan.

Iechyd a Llesiant Myfyrwyr

Mae'r galw gan fyfyrwyr am wasanaethau llesiant yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gan y Brifysgol system gymorth gadarn ar waith, gan gynnwys ymyriadau arbenigol trwy'r Gwasanaeth Cynghori ar Lesiant a'r Gwasanaeth Cwnsela, yn ogystal â llwybrau atgyfeirio sefydledig at gymorth arbenigol a chymunedol.

Niferoedd fesul pen

Ymchwil Ôl-raddedig: 658
Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir: 3,390
Israddedigion Gradd Gyntaf: 7,830
Israddedigion Graddau Eraill: 8,862

Cyferwerth ag Amser Llawn

Ymchwil Ôl-raddedig: 225.5
Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir: 1,713.5
Israddedigion Gradd Gyntaf: 6,329.33
Israddedigion Graddau Eraill: 4,640



Adolygiad yr Is-Ganghellor

Rydym wedi parhau i wella'r gefnogaeth a gynigiwn ar gyfer iechyd a llesiant myfyrwyr. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau allweddol, megis y GIG, Papyrus, a People Unlimited, i ddatblygu cefnogaeth ar gyfer ein cymuned a gwynnwch oddi mewn iddi, ac i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i fyfyrwyr a staff.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cael ei lywio gan arferion gorau y sector ac mae ein nodau wedi'u datgan yn ein strategaeth iechyd a llesiant cyfannol, sydd wedi'i datblygu o amgylch y model 'Stepchange' cenedlaethol.

Mae proses y Brifysgol ar gyfer brysbennu llesiant wedi'i mireinio ymhellach eleni, gan gyd-fynd â'r prosiect cenedlaethol 'Gwasanaethau Cyngori Iechyd Meddwl (MULS)' sydd wedi bod yn ysgogi cysylltiadau agosach rhwng addysg uwch a'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd a manteision alinio iaith a throthwyon â'r GIG ac mae wedi bod yn falch o lefel y cynnydd ar y prosiect cenedlaethol pwysig hwn dros y deuddeg mis diwethaf. Gall sicrhau alinio gwasanaethau prifysgol a gwasanaethau cymunedol arwain at well darpariaeth i fyfyrwyr.

Mae hyfforddiant a darpariaeth datblygu staff wedi parhau i fod yn faes ffocws, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi llesiant a llwyddiant myfyrwyr. Trwy wireddu ein cynllun gweithredu iechyd a llesiant, mae'r Brifysgol wedi parhau i weithredu cymorth cyntaf iechyd meddwl, atal hunanladdiad, a hyfforddiant SAFETalk, sydd wedi'i gynllunio i barhau i adeiladu diwylliant o iechyd meddwl cadarnhaol ar draws ein cymuned. Mae myfyrwyr a staff hefyd yn elwa o ystod o adnoddau ataliol a hunangymorth, gan gynnwys tanysgrifiadau i gymuned llesiant ar-lein a mynediad i'r ap 'Sorted' a gymeradwyir gan y GIG.

Dysgu ac Addysgu

Mae portffolio eang PCYDDS, sy'n cynnwys prentisiaethau gradd a Thystysgrifau Addysg Uwch yn ogystal â rhaglenni Israddedig, Ôl-raddedig a Doethuriaeth traddodiadol, yn darparu cynnig amrywiol sy'n hyrwyddo dysgu wedi'i bersonoli i gefnogi cenhadaeth y Brifysgol: Trawsnewid Addysg a Thrawsnewid Bywydau. Rydym wedi dechrau'r gwaith o adolygu prosesau dylunio a datblygu portffolios rhaglenni fel rhan o adolygiad ehangach o'r cwricwlwm. Mae'r elfen ddylunio yn cael ei chwblhau trwy raglen strwythuredig o hyfforddiant staff, a "sbrintiau" dylunio, gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr a myfyrwyr.

Mae dylunio rhaglenni wedi pwysleisio cyflwyno ac ymgorffori arferion a sgiliau cynhwysol ar gyfer y dyfodol, trwy ganolbwyntio ar ddulliau asesu dilys ac amrywiol, ymgorffori adnoddau canolog (e.e. Gyrfaedd, Sgiliau Gwybodaeth) mewn modylau, a gwella'r broses gynefino a throsglwyddo trwy fapio taith myfyrwyr, yn enwedig ar gyfer carfanau sy'n agored i niwed.

Mae cynnwys cyflogwyr a myfyrwyr yn ffurfiol yn rhan hanfodol o "sbrintiau" dylunio wedi darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar sgiliau a chydweithredu agosach â'n myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr.

Cynhaliwyd ein Gwobrau Dysgu ac Addysgu blyneddol ddydd Mawrth, 24 Mehefin fel rhan o'n Diwrnod Dathlu ac Arddangos Arfer. Roedd y digwyddiad yn dathlu cyflawniadau ein staff ym meysydd dysgu ac addysgu ar draws un ar ddeg categori, gan gynnwys: Cydweithiwr Ysbrydoledig; Rhagoriaeth Anweledig; Tîm Cydweithredol, a Chyflogadwyedd, Menter a Dysgu yn y Byd Go lawn.

Safleoedd Tablau Cynghair Nodedig ar gyfer PCYDDS yn 2024/25:



2^{il} yn y DU am
Foddhad Myfyrwyr

The
Guardian

Boddhad ag Addysgu:

7^{fed} yn y DU

Boddhad ag Adborth:

5^{ed} yn y DU

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2026

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY

Safleoedd Pwnc Nodedig y Guardian ar gyfer PCYDDS yn 2025:



Cynhyrchu Ffilm a Ffotograffiaeth

1^{af} yn y DU

1^{af} yng Nghymru



Cerddoriaeth

1^{af} yn y DU

1^{af} yng Nghymru



Gwyddor Chwaraeon

4^{ydd} yn y DU

2^{il} yng Nghymru



Ffasiwn a Thecstilau

5^{ed} yn y DU

1^{af} yng Nghymru



Seicoleg

8^{fed} yn y DU

1^{af} yng Nghymru



Animeiddio a dylunio gemau

9^{fed} yn y DU

1^{af} yng Nghymru

Adolygiad yr Is-Ganghellor

Iaith a diwylliant Cymraeg

Mae Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol yn parhau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn gwasanaethu rhaglenni hyfforddi iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg y Brifysgol ar gyfer staff a myfyrwyr.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gwasanaethu'r sector addysg yng Nghymru drwy ei ddau endid â brand masnachol. Mae Rhagoriaith yn un o brif ddarparwyr Cynllun Sabothol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon ac mae'n darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i amrywiaeth o gleientiaid. Mae'n cael ei chydabod fel canolfan ragoriaeth genedlaethol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg yn y sector addysg yng Nghymru. Yn yr un modd, mae Peniarth yn cael ei gydnabod fel un o brif ddarparwyr adnoddau addysg Cymru, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Yn 2025, comisiynwyd Peniarth i gyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol mewn ffoneg Gymraeg ar gyfer

ymarferwyr a chynorthwyyr addysgu sy'n gweithio gyda dysgwyr 3 i 7 oed.

Yn ogystal, mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg bellach yn gyfrifol am Yr Egin, y ganolfan greadigol a digidol sydd wedi'i lleoli ar ein campws yng Nghaerfyrddin. Mae'r Egin yn darparu cyfleoedd creadigol, digidol ac addysgol cydweithredol i staff a myfyrwyr, gan gysylltu'r Brifysgol â'r diwydiannau creadigol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae un ar bymtheg o gwmnïau wedi'u cyd-leoli yn yr hwb, sy'n lleoliad arbennig ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau. Mae Yr Egin yn darparu darllediadau llif byw o safon uchel i gleientiaid yn ogystal â rhaglen artistig wedi'i churadu sy'n ymestyn yn ehangach ac yn ymgysylltu â'r gymuned. Dyfarnwyd gwobr 'Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle' i'r Egin yn 2025 gan Gyrfa Cymru.



Adolygiad yr Is-Ganghellor

Rhyngwladoli

Rydym wedi gweld twf yn ein gweithgarwch addysg drawswladol (TNE). Nodwyd cryfder ein partneriaethau â Phrifysgol Lanzhou a Phrifysgol Technoleg Wuhan yn Tsieina mewn adolygiad Gwerthuso Ansawdd a Gwella Darpariaeth Addysg Uwch Trawswladol y DU (QE-TNE) gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ym mis Ionawr, a amlygodd y cydweithredu agos rhwng ein timau a'n partneriaid yn Wuhan, gan gryfhau ansawdd a chymorth i fyfyrwyr.

Yn ogystal gwnaeth yr adolygiad sylwadau ar y modd y mae cyflwyno addysgu ar y cyd yn gwella'r profiad myfyrwyr a'r cyfoeth academiaidd. Yn dilyn hyn gofynnwyd i ni gyfrannu at adroddiad y QAA, TNE Thematic Insights: The Role of the Link Tutor in TNE Partnerships, sy'n tynnu sylw at gryfder ein partneriaethau rhyngwladol.

Mae ein hymagwedd adfywiedig at weithgarwch rhyngwladol wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd a ddyrannwyd i PCYDDS gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cadarnhau Derbyn i Astudio i alluogi recriwtio rhyngwladol. Yn ogystal, rydym wedi parhau i wella a datblygu ein prosesau yn dilyn archwiliad llwyddiannus UKVI ym mis Mehefin 2024. Mabwysiadwyd y prosesau recriwtio a derbyn a dreialwyd gennym yn flaenorol fel arfer safonol ar draws holl gampysau PCYDDS i sicrhau cysondeb. Mae hyn wedi arwain at well profiad i gwsmeriaid a gwell cyfraddau trosi ymgeiswyr yn fyfyrwyr cofrestredig. Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom hefyd gryfhau ein cyfathrebu a'n cefnogaeth ar draws adrannau prifysgol i wella recriwtio rhyngwladol ymhellach.

Yn ogystal, fe wnaeth ymgyrch hyrwyddo gynyddu gwelededd ein brand a chefnogi recriwtio myfyrwyr mewn marchnadoedd allweddol yn Ne a Dwyrain Asia. Yn ystod yr ymgyrch gwelwyd ymgysylltu mwy uniongyrchol â darpar ymgeiswyr a phartneriaid sy'n asiantau recriwtio drwy gyflwyno gweminarau recriwtio rhyngwladol gyda ffocws penodol ar gampysau Cymru a Birmingham.


Ymchwil ac arloesi

Bellach mae gan y Brifysgol bortffolio o saith deg o brosiectau gweithredol gwerth mwy nag un ar ddeg miliwn o bunnoedd. Er enghraifft, mae'r Brifysgol yn rhan o brosiect ledled y DU a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) i ymchwilio i sut y gallir ail-ddychmygu adeiladau trefol a mannau cyhoeddus hŷn yn lleoedd cynaliadwy, byw. Mae Ôl-osod ar gyfer y Dyfodol: Datrysiadau seiliedig ar Natur ar gyfer Addasu i'r Hinsawdd yn dod â chonsortium pwerus o bartneriaid academiaidd a chymdeithasol at ei gilydd i archwilio sut y gall dylunio bioffilig, gan weithio gyda natur yn hytrach nag yn ei erbyn, helpu ardaloedd trefol i addasu i effeithiau cynyddol newid hinsawdd.

Mae Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (CAWCS) hefyd wedi derbyn gwobrau gan yr AHRC, er enghraifft am y prosiect ymchwil 'Cymro cyntaf y Dadeni Dysg? Gutun Owain a diwylliant ysgolheigaidd y gogledd-ddwyrain yn yr Oesoedd Canol diweddar'. Bydd y prosiect hwn yn cyhoeddi testunau a chyfieithiadau golygedig o farddoniaeth gan y polymath o'r bymthegfed ganrif, Gutun Owain, a bydd yn ymchwilio i'w gyfraniad i ysgolheictod ei ranbarth ar drothwy'r Dadeni yng Nghymru.

Yn y Gwyddorau Cymdeithasol, rydym yn arwain prosiect Camau i'r Dyfodol, menter £2 filiwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi addysgwyr ynglŷn â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae prosiectau eraill yn canolbwyntio ar ymchwil anabledd a llesiant cymunedol, yn ogystal ag ymchwil a gomisiynwyd gan UNESCO o dan ei raglen arweinwyr y dyfodol. Rydym hefyd wedi sicrhau nifer o brosiectau yn y Gwyddorau, er enghraifft ar wella effeithlonrwydd deunyddiau mewn gweithgynhyrchu; ymchwil contract mewn technolegau gwydr, ac uwchsgilio ar gyfer twf economaidd rhanbarthol ac effeithlonrwydd busnes.

Agorwyd ein hadeilad Matrics Arloesi ar gampws SA1 y Glannau yn swyddogol ym mis Mawrth gan Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Llywodraeth Cymru), a'r Fonesig Nia Griffith DBE AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Swyddfa Cymru, Llywodraeth y DU). Wedi'i ariannu drwy bartneriaeth strategol rhwng y Brifysgol a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, mae'r Matrics Arloesi yn cynnig gofod i fusnesau sefydledig a newydd gyflymu datblygiad eu cynnyrch, cael mynediad at gymorth technegol arbenigol, cyflogi talent graddedig a chreu partneriaethau cyfnewid gwybodaeth gyda ni. Mae'r adeilad yn llawn ac mae rhestr aros o fusnesau sy'n awyddus i fod yn rhan o'n cymuned.



Mae PCYDDS wedi'i gosod yn 4ydd yng Nghymru am effaith, a bernir bod 74% o ymchwil y Brifysgol yn darparu effeithiau eithriadol a sylweddol iawn ar gymdeithas, diwylliant a diwydiant.



Safle tabl cynghrair gwyrdd People & Planet : Dosbarth 2.1 a 39^{fed}

Adolygiad yr Is-Ganghellor

Ym mis Gorffennaf, llofnododd PCYDDS a Phrifysgol Aberystwyth gytundeb partneriaeth a fydd yn gweld y ddwy brifysgol yn cefnogi dysgu proffesiynol i ysgolion. Bydd y bartneriaeth strategol hon yn canolbwyntio ar ddarparu datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer ysgolion, gyda phwyslais cryf ar ddylunio cwrwclwm a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae ein Fframwaith Arfer Proffesiynol wedi'i gynllunio i alluogi cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i gydweithio â'r Brifysgol i ddatblygu rhaglenni pwrpasol, achrededig sy'n gwella gwerth, hygrededd ac ansawdd rhaglenni datblygu mewnol a masnachol, yn ogystal â grymuso dysgwyr i werthfawrogi eu dysgu seiliedig ar waith a gwella eu sgiliau. Daeth y Fframwaith yn Gydradd Ail yng Ngwobrau Cymdeithas Dysgu Gydol Oes y Prifysgolion (UALL) 2025 o dan y categori newydd "Cyflawnwr Tawel".

Cydraddoldeb Hil

Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd, derbyniodd y Brifysgol gadarnhad ei bod wedi derbyn Gwobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil AU Ymlaen. Roedd cyflawni'r wobwr, sy'n un o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer prifysgolion, yn cynnwys hunanasesiad trylwyr o'n sefyllfa bresennol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n cydfynd â thri maes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 sef Dealltwriaeth, Perthyn a Chanlyniadau. Trwy hyn, mae PCYDDS yn parhau i weithio'n weithredol ar ddileu rhwystrau i gyfranogiad, gwerthfawrogi gwahaniaethau, dathlu amrywiaeth a chefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Arloesi digidol

Rydym yn parhau i ymgorffori technoleg flaengar yn ein haddysgu, gan wella profiadau dysgu a pharatoi staff a myfyrwyr ar gyfer y dirwedd ddigidol sy'n esblygu'n gyflym. Rydym wedi datblygu adnoddau newydd i gefnogi llythrennedd Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer staff a myfyrwyr, gyda deunyddiau wedi'u creu ar gyfer myfyrwyr i helpu i feithrin eu dealltwriaeth o AI ac i lywio ei ddefnydd effeithiol a chyfrifol mewn asesiadau.

Ar yr un pryd, rydym yn parhau i fanteisio ar ein hamgylcheddau addysgu trawsnewidiol, gan gynnwys dwy ystafell ddosbarth drochi LED o'r radd flaenaf ac integreiddio technolegau realiti estynedig, gyda'r datblygiadau newydd hyn yn enghraifft o'n dull arloesol o ddysgu ac addysgu. Rydym hefyd yn parhau i arwain Rhwydwaith Dysgu Trochol Cymru gyfan ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Mewn partneriaeth â QAA Cymru a Medr, cynaliasom Gynhadledd Gydweithredol Cymru: AI mewn Addysg 2025, digwyddiad deuddydd ar-lein a ddaeth ag arweinwyr ym maes addysg, technoleg a pholisi at ei gilydd i archwilio potensial trawsnewidiol Deallusrwydd Artiffisial ar draws sectorau addysg uwch ac addysg bellach Cymru a thu hwnt.



Adolygiad yr Is-Ganghellor - Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae’r Brifysgol yn cynnal Cofrestr Risg ar lefel prifysgol sy’n cael ei hadolygu’n ffurfiol gan yr Uwch Dîm Arwain, Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor, a’r Cyngor. Mae hefyd yn cael ei ddiweddarau fel y bo'n briodol os yw'n amlwg bod risgiau'n newid yn gyflymach.

Caiff perfformiad sefydliadol ei fonitro'n systematig. Mae Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Cyngor a’r Cyngor ei hun yn derbyn adroddiad blynyddol ar berfformiad. Ar ran y Cyngor, mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad hefyd yn cynnal trosolwg o berfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Darperir adroddiadau monitro ym mhob cyfarfod, a chyflwynir asesiad blynyddol a naratif yng nghyfarfod terfynol pob blwyddyn.

		Addysg a’r Profiad Myfyrwyr	Recriwtio: Cartref a Rhyngwladol	Pobl, Sefydliad a Diwylliant	Yr Ystâd Ddigidol a Ffisegol	Ymchwil a Chenhadaeth Ddinesig
RISG	RISG	Nid yw ein portffolio academiaidd wedi’i strwythuro’n briodol i ddarparu’r cyfleoedd gorau ar gyfer recriwtio, profiad a chanlyniadau myfyrwyr.	Nid yw recriwtio a chadw myfyrwyr Cartref a Rhyngwladol yn cyd-fynd â nifer y myfyrwyr a ragwelir gan arwain at lai o gynaliadwyedd ariannol.	Nid yw ein strwythurau staffio, proffil y gweithlu ac ymddygiadau yn y gweithle yn cyd-fynd ag anghenion y Brifysgol a’n myfyrwyr.	Mae costau sy’n gysylltiedig â chynnal a chadw’r ystâd ddaearyddol yn arwain at lai o gynaliadwyedd ariannol. Mae digwyddiad neu achos o dorri seiberddiogelwch yn arwain at niwed i’r Brifysgol.	Mae incwm is o ymchwil a gweithgareddau masnachol yn arwain at lai o gynaliadwyedd ariannol.
LLINIARU	LLINIARU	Trwy gylchred gynlluniedig, byddwn yn adolygu’r portffolio academiaidd gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau a gwybodaeth arall, yn fewnol ac yn allanol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cynnig yn ddeniadol, wedi’i ddylunio’n dda, wedi’i strwythuro’n briodol ac wedi’i leoli’n ddaearyddol i ddarparu’r cyfleoedd gorau ar gyfer recriwtio, profiad a chanlyniadau myfyrwyr.	Byddwn yn adolygu a gwella ein prosesau marchnata i gynyddu ein cyfran o’r marchnadoedd presennol a’r marchnadoedd sy’n datblygu gyda chynnig i ddenu mwy o fyfyrwyr i’n campysau yng Nghymru. Yn ogystal, byddwn yn tyfu gweithgarwch rhyngwladol.	Byddwn yn llunio ac yn gweithredu strwythur a diwylliant sefydliadol, yn seiliedig ar werthoedd a gweledigaeth a rennir, o fewn grŵp addysgu ôl 16 sy’n ymateb i flaenoriaethau sefydliadol a chenedlaethol. Darperir y rhain gan wasanaethau academiaidd a phroffesiynol ac fe’u rheolir gan fwrdd gweithredol hyblyg sy’n atebol i lywodraethwyr a’n cyrff rheoleiddio. Byddwn yn diffinio strwythurau sefydliadau o siâp, maint a dosbarthiad daearyddol priodol i gyflawni a rhedeg y Brifysgol yn effeithiol o fewn paramedrau ein gweithlu presennol.	Byddwn yn gwneud y gorau o’n seilwaith campws a’n hól troed i gefnogi ystâd effeithlon gynaliadwy sy’n addas i’r diben i gyflawni ein gofynion addysgol a sefydliadol ac ymateb i alwadau newidiol ar ddefnydd. Byddwn yn parhau i weithredu ein Strategaeth Ddigidol, gan ganolbwyntio ar offer digidol a fydd yn cefnogi gwell recriwtio myfyrwyr a gwell gwasanaethau i staff a myfyrwyr ar yr un pryd â chynnal seiberddiogelwch cryf.	Byddwn yn diffinio, yn strwythuro ac yn gweithredu dull ymchwil priodol ar gyfer y Brifysgol sydd wedi’i ymgorffori yn ein cynnig addysgol.

Adolygiad yr Is-Ganghellor

Ein hystâd

Ar ôl gwneud y penderfyniad anodd ym mis Ionawr 2025 i symud ein darpariaeth Dyniaethau o Lamberd i Gaerfyrddin, mae'r Uwch Dîm Arwain wedi bod yn ymwneud â goruchwyllo'r gwaith i sicrhau bod ein myfyrwyr a'n staff yn cael eu cefnogi yn ystod y symud. Ein ffocws yw sicrhau bod y rhaglenni Dyniaethau yn cael y gefnogaeth a'r amgylchedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu fel disgyblaethau academiaidd, ac i ddarparu profiad mwy bywiog i fyfyrwyr a staff.

Mae PCYDDS wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau dyfodol bywiog i gampws Llamberd, sydd â lle pwysig yn hanes addysg uwch yng Nghymru yn ogystal ag o fewn y gymuned leol a rhanbarthol. Rydym wedi ymgynnull grŵp o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys gwleidyddion a busnesau lleol a'r gymuned, gydag aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion ffurfiol i'w hystyried. Symudir ymlaen â'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion ariannol hyfyw yn y flwyddyn academiaidd newydd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ceredigion i archwilio sut y gall campws Llamberd barhau i wneud cyfraniad sylweddol at addysg fel canolfan ar gyfer sgiliau a hyfforddiant galwedigaethol, gyda phwyslais arbennig ar gyrsiau sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n hanfodol i economi wledig Cymru, megis amaethyddiaeth, garddwriaeth, gastronomieg ac adeiladu. Rydym yn cefnogi uchelgais y Cyngor i gynyddu'r ystod o opsiynau hyfforddiant galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr o bob oed yn y sir a byddwn yn parhau i archwilio'r cyfleoedd, sy'n unol â blaenoriaethau Medr ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

Mae ein Hathrofa Dysgu Canol Dinas wedi gwella'r profiad dysgu ac addysgu i fyfyrwyr a staff ar ei champws yn Westferry Circus, ochr yn ochr â mannau cymdeithasol newydd ar gyfer llety myfyrwyr a staff. Yn yr un modd, chwiliwyd am le ychwanegol ar gampws Quay Place yn Birmingham i letya ein myfyrwyr.

Eleni dechreuwyd ar y gwaith o symud campws Busnes Abertawe fel rhan o'n strategaeth i gyfoethogi'r profiad myfyrwyr, gwella cyfleoeddau a chydleoli gweithrediadau ar gampws SA1 y Glannau. Bydd yr adleoli hwn, a gwblhawyd mewn pryd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, yn darparu amgylcheddau dysgu ac addysgu wedi'u huwchraddio i fyfyrwyr a staff, gwell cyfleoedd cydweithredu, a mynediad at adnoddau o'r radd flaenaf. Bydd hefyd yn caniatáu ymgysylltu cryfach â chymunedau myfyrwyr ac academiaidd ar draws yr Athrofeydd.

Cynaliadwyedd

Rydym wedi cadw achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd am ein Harchwiliad o'r System Rheoli Amgylcheddol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i weithrediadau cyfrifol o ran cynaliadwyedd. Roeddem yn falch hefyd o ennill statws y Faner Werdd am y 3edd flwyddyn yn olynol ar ein campysau yng Nghaerfyrddin a Llamberd, sy'n gydnabyddiaeth o'r modd yr ydym yn rheoli mannau gwyrdd a'r bioamrywiaeth. Rydym yn parhau i weithio ar ddatgarboneiddio ein hystâd, er enghraifft drwy osod ffotofoltegion solar ar y to. Mae'r gwaith a wnaed hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â chyflwyno rhaglenni academiaidd ym meysydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Cydweithiodd staff o Ysgol Fusnes Caerfyrddin ar brosiect i gryfhau cynaliadwyedd a gwytnwch busnesau yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin drwy feithrin arferion economi gylchol. Nod y fenter, 'Nodi'r Heriau ar gyfer Gwella Gwytnwch Gwledig drwy'r Economi Gylchol (EG)', a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, oedd mynd i'r afael â'r angen i symud tuag at economi werdd.

Lansiodd Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru (CWIC) y Brifysgol y rhaglen ERFIT (Hyfforddiant Uwch ar Wella Adeiladwaith Ôl-osod) i ddarparu sgiliau technegol ar gyfer gosod, cynghori a datrys problemau ar brosiectau ôl-osod. Wedi'i ariannu a'i gefnogi'n llawn gan Ymddiriedolaeth Passivhaus, roedd yn ategu prosiect Effeithlonrwydd Heb Gyfaddawd CWIC, a oedd yn hyfforddi dylunwyr a chrefftwyr mewn egwyddorion Passivhaus. CWIC oedd y sefydliad cyntaf y tu allan i Loegr i gynnig y cwrs. Roedd ERFIT yn cynnwys dau ddiwrnod o ddysgu ar-lein ynglŷn ag adeiladu gwneuthuriad yn gyntaf, allyriadau carbon a chyd-destunau ôl-osod, ac yna gweithdy ymarferol yng nghanolfan CWIC ar Gampws Glannau Abertawe. Yn ogystal cyflwynodd CWIC sesiynau Ôl-osod Passivhaus Ymarferol byrrach 2.5 awr ar aerglosrwydd ac awyru, inswleiddio a phontio thermol, a ffenestri, drysau, ac aerglosrwydd.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Adolygiad Ariannol

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol a Chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn cyflwyno adolygiad ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025.

Mae canlyniad y Grŵp yn cwmpasu'r holl weithgareddau, ar wahân i Undeb y Myfyrwyr sy'n gorff annibynnol.

Mae'r sector addysg uwch yn parhau i weithredu mewn amgylchedd lle mae nifer o ffactorau sylfaenol yn arwain at gofrestrïadau myfyrwyr ansicr, pwysau o ran cynhyrchu incwm ac o ran costau. Profodd pob Prifysgol y pwysau hwn yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025.

Nid yw'r Brifysgol yn ddiogel rhag y pwysau hyn ac mae wedi cymryd camau pendant yn y 3 blynedd diwethaf i sicrhau bod ei model gweithredu yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn ei galluogi i lywio'r amgylchedd heriol. Mae effaith y penderfyniadau hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol gyda'r Brifysgol mewn sefyllfa i edrych i'r dyfodol yn hyderus.

O'r cyfanswm colled cynhwysfawr o £5.4 miliwn, priodolir £4.7 miliwn i ganlyniadau'r Brifysgol, priodolir diffyg o £0.1 miliwn i'r Colegau AB, a phriodolir diffyg o £0.6 miliwn i'r is-gwmnïau eraill yn y Grŵp.

Cafodd y cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn flaenorol ei effeithio'n sylweddol gan ryddhau darpariaeth diffyg yr USS a leihaodd costau cyflog £33m. Fel y nodwyd ar dudalen 18, dangosodd perfformiad sylfaenol y grŵp gynnydd o £4.7m yn ei broffidoldeb sylfaenol.

Mae'r Brifysgol a'r grŵp yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac felly mae nifer o eitemau nad ydynt yn arian parod ac eitemau y tu allan i ddylanwad y Brifysgol yn cael eu hadrodd yn y gwarged a gofnodwyd yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Yn benodol, fe wnaeth rhyddhau darpariaeth diffyg yr USS yn y flwyddyn flaenorol leihau costau cyflog, ac felly sicrhau cynnydd o £33m yn y gwarged a gynhyrchwyd.

Dangosir crynodeb o'r perfformiad ariannol a adroddwyd a'r sefyllfa ariannol sylfaenol yn y tablau drosodd. Mae'r Brifysgol o'r farn bod y sefyllfa weithredu sylfaenol hon yn fesur priodol o'i pherfformiad.

Nid yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ddiogel rhag y risgiau a'r pwysau yn y sector ond mae ganddi broffil myfyrwyr ac ystadau sy'n darparu risgiau ychwanegol. Pan fyddant yn cael eu rheoli'n briodol gyda gweithgareddau lliniaru, maent hefyd yn rhoi cyfleoedd i'r Brifysgol lywio'r dirwedd bresennol.

Dangosodd y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 gam cyntaf yr adferiad o sefyllfa ddiffyg a adroddwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023 gyda'r perfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2025 yn parhau i ddangos effaith camau cywiro a gymerwyd yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol wrth fynd i'r afael â'r sefyllfa ddiffyg.

Pennir cyllidebau a rhagolygon ariannol i sicrhau bod y Brifysgol yn gynaliadwy ac wedi'i thanategu gan fuddsoddiad priodol mewn staff a gwariant gweithredol. Pennir y cyllidebau i fodel sy'n darparu gwarged a sefyllfa o gynhyrchu arian.

Mae'r Brifysgol yn fodlon â pherfformiad y flwyddyn, ond mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i barhau i ail-lunio model ariannol y Brifysgol a'r grŵp ehangach er mwyn darparu sefyllfa gynaliadwy o gynhyrchu arian.

Mae incwm ffioedd dysgu ar gyfer y Brifysgol yn parhau i fod yn sbardun i'r twf, gyda chynnydd o £8.5m mewn ffioedd dysgu wedi'i nodi yn ystod y flwyddyn. Mae'r twf mewn ffioedd dysgu yn rhannol yn sgil adleoli campws Llundain y Brifysgol a dderbyniodd ei fyfyrwyr cyntaf ym mis Mehefin 2024.

Gwelwyd gostyngiad o £6.8m mewn incwm arall yn ystod y flwyddyn oherwydd incwm grant cyfalaf anailadroddadwy o £8m a gydnabuwyd yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 yn ymwneud ag adeiladu adeilad y Matrics Arloesi, gyda hyn yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan enillion incwm bach mewn meysydd gweithredu eraill.

Mae costau cyflog ar gyfer y grŵp yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol oherwydd dyfarniadau cyflog yn y colegau AB a'r Brifysgol a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn TPS a LGPS. Gohiriwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer y Brifysgol a'i weithredu ym mis Mehefin 2025. Gan fod lefelau cynnydd pensiwn TPS yn isel yn achos y Brifysgol, mae rheolaeth barhaus o niferoedd staff y Brifysgol wedi lliniaru'r pwysau hyn ac wedi arwain at gynnydd bach o £0.9m mewn costau cyflog. Yn ystod y flwyddyn mae'r Brifysgol wedi gweithio i sicrhau bod dosbarthiad ei gweithwyr yn cyd-fynd â gweithrediadau'r sefydliad. Mae'r ymarfer hwn wedi arwain at gadw nifer y staff fesul pen ar lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol ond mae'r gweithgarwch ad-drefnu wedi arwain at gost ailstrwythuro o £1.8m.

Rheolwyd gwariant gweithredu yn ofalus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau cyflawni sefyllfa o adennill costau. Gostyngodd y Brifysgol ei gwariant heblaw cyflogau £6.8 miliwn. Cafodd hyn ei wrthbwysu gan gynnydd mewn taliadau comisiwn yn gysylltiedig â recriwtio myfyrwyr o £2.6 miliwn. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad net o £4.2 miliwn yng ngwariant gweithredu'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn parhau i reoli ei chostau heblaw cyflogau yn ofalus tra'n lleihau'r effaith ar ei gallu i ddarparu addysg o ansawdd uchel i'w myfyrwyr. O fewn y grŵp ehangach, cynyddodd y gwariant gweithredu £5.4 miliwn

yn bennaf o ganlyniad i fwy o gyllid grant ar gyfer darparu addysg bellach.

Wrth reoli'r sefyllfa ariannol, gohiriwyd rhai gwarediadau cyfalaf a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 ac ni chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Cafodd hyn effaith negyddol o £2 filiwn ar lif arian y gyllideb. Fel y nodwyd ar dudalen 24, mae'r Brifysgol wedi ailstrwythuro ei chynllun benthyca ariannol gyda HSBC.



Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Cyfunol

Crynodeb o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr (Cyfunol)

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000	Symudiad £'000
Incwm	209,756	202,701	7,055
Gwariant	(208,083)	(205,030)	(3,053)
Effaith symud darpariaeth diffyg USS	-	32,925	(32,925)
Elw/(Colled) o Werthu Asedau	(33)	1,408	1,441
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	(3,833)	(655)	(3,178)
Elw/(Colled) ar fuddsoddiadau	8	(758)	766
Treth	1	(4)	5
Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn	(2,184)	30,587	(32,771)
- Enillion/(colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	(3,222)	(2,679)	(543)
Cyfanswm incwm/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn	(5,406)	27,908	(33,314)

Mae'r Grŵp yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac felly mae nifer o eitemau nad ydynt yn arian parod ac eitemau y tu allan i ddylanwad y Brifysgol yn cael eu hadrodd yn y gwarged a gofnodwyd yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

Perfformiad Sylfaenol wedi'i Addasu (Cyfunol)

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000
Cyfanswm incwm/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn	(5,386)	27,908
Ychwanegu symudiad actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn	3,222	2,679
<u>Ychwanegu gwariant nad yw'n wariant craidd</u>		
Costau ac addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod net	-	(32,925)
Ailbrisio atebolrwydd deilliadol	-	-
Ailstrwythuro costau	1,821	459
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	3,833	655
Gwarged/(Diffyg) sylfaenol	3,490	(1,224)

Mae'r Grŵp o'r farn bod y sefyllfa weithredu sylfaenol hon yn fesur priodol o'i berfformiad.

Y Brifysgol

Crynodeb o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr (Y Brifysgol)

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000	Symudiad £'000
Incwm	132,037	135,552	(3,515)
Gwariant	(131,104)	(136,230)	5,126
Effaith symud darpariaeth diffyg USS	-	32,925	(32,925)
Elw/(Colled) o Werthu Asedau	(7)	1,403	(1,410)
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	(3,723)	(565)	(3,158)
Colled ar fuddsoddiadau	(4)	(746)	(742)
Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn	(2,801)	32,339	(35,140)
- Enillion/(colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	(1,879)	(1,915)	36
Cyfanswm incwm/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn	(4,680)	30,424	(35,104)

Mae'r Brifysgol yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth ac felly mae nifer o eitemau nad ydynt yn arian parod ac eitemau y tu allan i ddylanwad y Brifysgol yn cael eu hadrodd yn y gwarged a gofnodwyd yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

Perfformiad Sylfaenol wedi'i Addasu (Y Brifysgol)

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 £'000
Cyfanswm incwm/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn	(4,680)	30,424
Ychwanegu symudiad actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn	1,879	1,915
<u>Ychwanegu gwariant nad yw'n wariant craidd</u>		
Costau ac addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod net	-	(32,925)
Ailbrisio atebolrwydd deilliadol	-	-
Ailstrwythuro costau	1,774	403
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	3,723	565
Gwarged/(Diffyg) sylfaenol	2,696	382


Mae'r Brifysgol o'r farn bod y sefyllfa weithredu sylfaenol hon yn fesur priodol o'i pherfformiad.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Cyfanswm Incwm

Mae'r twf mewn incwm yn parhau tuedd dros y pum mlynedd diwethaf lle mae incwm wedi tyfu 21% o incwm o £174 miliwn yn 2020/2021 i £210 miliwn yn y flwyddyn gyfredol.


Mae incwm y Brifysgol yn yr un cyfnod wedi cynyddu 15% o £115 miliwn yn 2020/2021 i miliwn yn y flwyddyn gyfredol. Yn ystod yr un cyfnod mae incwm ffioedd dysgu'r Grŵp wedi cynyddu 26%.




Cyfanswm Gwariant

Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm gwariant y grŵp a gostyngiad yng gwariant y Brifysgol yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025. Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad i fesurau rheoli costau a weithredwyd yn ystod y flwyddyn, a'r cynnydd mewn

gwariant grŵp trwy gostau cynyddol wrth ddarparu gweithgarwch addysgu yn y colegau AB.



Consolidated Tuition Fee Income



Mae gwariant wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf i gefnogi'r twf incwm a brofwyd yn y cyfnod (twf incwm y Grŵp 21%, 15% Prifysgol). Pan na chaiff yr addasiadau blynyddol i ddarpariaeth USS eu cynnwys, mae gwariant y Grŵp wedi cynyddu 27% a gwariant y Brifysgol wedi cynyddu 24% dros y 5 mlynedd diwethaf.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Ffynonellau Incwm

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm incwm y grŵp o £7.1 miliwn (3%) a gostyngiad yn incwm y Brifysgol o £3.5 miliwn (3%). Cyfanswm incwm y grŵp yn y flwyddyn oedd £209.8 million a chyfanswm incwm y Brifysgol oedd .0 miliwn.

Ac eithrio'r incwm grant cyfalaf ar gyfer y Matrics Arloesi (£8.1 miliwn), y cynnydd mewn incwm o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y grŵp a'r Brifysgol oedd £15.2 miliwn (7.5%) a £5.1 miliwn (4%). Mae'r twf hwn yn cael ei yrru'n

bennaf gan y cynnydd mewn ffioedd dysgu..

Mae cyfansoddiad yr incwm wedi aros yn weddol gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn ac fe'i crynhoir isod:


Grantiau Cyrff Cyllido – Mae grantiau cyrff cyllido y grŵp yn cynnwys cyllid Prifysgol i ddarparu addysg uwch, cyllid coleg AB i ddarparu addysg bellach a chyllid grŵp arall i ddarparu Dysgu Cymraeg i oedolion. Mae'r cynnydd yn yr incwm grant gan gyrff cyllido o £0.4 miliwn i'r Brifysgol a £6.7 miliwn i'r Grŵp drwy gynydd mewn cyllid grant rheolaidd.

Mae cyllid grant cyfredol Llywodraeth Cymru o £47.5 miliwn yn cynnwys £16.1m a ddyfarnwyd i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer cyflwyno a hyrwyddo dysgu Cymraeg a £39.6 miliwn a ddyfarnwyd i Goleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion ar gyfer darparu addysg bellach.


Mae **Grantiau o gyrff cyllido - grantiau eraill** yn adlewyrchu grantiau gan Lywodraeth Cymru, a dderbyniwyd gan Goleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (YGDCG).

Mae **incwm arall** yn deillio o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys: llety myfyrwyr, arlwyo a chyllid grant ar gyfer prosiectau a rhaglenni.


Incwm (£'m)



Incwm cyfunol: % symudiad 2024 -2025



Incwm y Brifysgol: % symudiad 2024 -2025



Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Costau Staffio

Mae'r Brifysgol yn targedu cymhareb cost staffio i incwm o rhwng 50% a 55%. Dros y cyfnod 5 mlynedd hwn mae'r cymarebau wedi bod o fewn yr ystod hon. Yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025, cymhareb y Brifysgol yw 53% a chymhareb y Grŵp yw 50%. Pan fydd yr incwm grant cyfalaf anghylchol yn cael ei eithrio, y cymarebau yw 54% ar gyfer y Brifysgol a 52% ar gyfer y Grŵp.

Costau staffio yw'r llinell gost sengl fwyaf ar gyfer y Brifysgol a'r Grŵp gan gynrychioli 51% o wariant y Grŵp (2024:42%) a 55% o wariant y Brifysgol (2024:52%).

Talwyd costau ailstrwythuro gwerth cyfanswm o £1,821k yn ystod y flwyddyn. Pan fydd y costau ailstrwythuro yn cael eu heithrio roedd costau cyflog y Grŵp yn 50% o'r incwm a chostau cyflog y Brifysgol yn 53% o'r incwm

Costau Gweithredu Eraill

Mae 60% o wariant gweithredol y Brifysgol (47% yn achos y grŵp) yn dod o fewn gwariant academiaidd a gwariant cysylltiedig. Mae gwariant y Brifysgol o £29.3 miliwn yn y maes hwn yn cynnwys £19.1 miliwn yn ymwneud â recriwtio myfyrwyr, cynnydd o £2.6 miliwn.


Mae gwariant ar adeiladau'r Brifysgol wedi gostwng £0.9 miliwn (13%), mae gwariant y Grŵp wedi cynyddu £4.3 miliwn (43%). Mae'r cynnydd yng ngwariant y grŵp o ganlyniad i wariant cynnal a chadw wedi'i ariannu.

Mae'r gost ddibrisiant yn ystod y flwyddyn wedi gostwng £1.2 miliwn ar gyfer y brifysgol (£1.5 miliwn ar gyfer y Grŵp).


Gwelodd y Brifysgol wariant cyfalaf sylweddol ar offer fel rhan o raglen ariannu adferiad ôl-Covid. Roedd yr eitemau a brynwyd yn y cyfnod hwn heb unrhyw werth ar y llyfrau (NBV) ar 1 Awst 2024 a heb unrhyw dâl dibrisiant yn ystod y flwyddyn. Ar ôl cynnal adolygiadau ar ddefnydd disgwylidig o adeiladau allweddol y Brifysgol yn y dyfodol, mae'r Brifysgol wedi dod i'r casgliad bod y gwerth cario ymlaen yn briodol, ac nad oes angen unrhyw gostau amhariad yn y flwyddyn gyfredol.

Mae costau llog a chyllid y Brifysgol yn cynnwys credyd llog cynllun pensiwn o £0.4 miliwn (2024: tâl o £0.4 miliwn) a llog benthychiadau o £2.3 miliwn (2024: £2.1 miliwn).


Mae costau llog a chyllid y Grŵp yn cynnwys credyd llog cynllun pensiwn o £1 miliwn (2024: credyd o £0.06 miliwn) a llog benthychiad o £2.3 miliwn (2024: £2.1 miliwn).



Gwariant Cyfunol: % o'r Flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025



Gwariant y Brifysgol: % o'r Flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025



Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Gwariant Cyfalaf

Yn 2024 cwblhawyd ystod o brosiectau cyfalaf a ymrwymwyd yn flaenorol iddynt. Mae'r gwariant cyfalaf ar gyfer y grŵp yn y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025 yn is (£10.2 miliwn) nag yn y flwyddyn flaenorol (£19.5 miliwn). Ar gyfer y Brifysgol y gwariant oedd £7.9 miliwn (2024: £16.9

miliwn).

Roedd y gwariant ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys buddsoddiad yn 3 champws y Brifysgol yng Nghymru (£5.0 miliwn), Campws Llundain (£2.5 miliwn) ac offer cyffredinol (£1.0 miliwn).

Mantolen

Mae'r Fantolen gyfunol yn datgelu sefyllfa asedau net o £136.5 miliwn ar 31 Gorffennaf 2025 (2024: £141.9 miliwn). Mae'r gostyngiad mewn asedau net yn deillio'n bennaf o'r gostyngiad yng ngwerth eiddo buddsoddi, ac eithrio symiau a drosglwyddwyd i asedau sefydlog o £3.6 miliwn.

Adroddir bod balansau arian parod yn £17.8 miliwn ar gyfer y Grŵp ar 31 Gorffennaf

2025 (2024: £20.4 miliwn llai £5.5 miliwn o orddrafft) a £2.1 miliwn i'r Brifysgol (2024: £2.0 miliwn llai £5.5 miliwn o orddrafft).

Tynnodd y Brifysgol £7 miliwn i lawr o'i Chyfleuster Credyd Cylchol ar 31 Gorffennaf 2025 gyda'r balans hwn yn dangos o dan gredydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn. Defnyddiwyd y cronfeydd hyn yn ystod y flwyddyn i ad-dalu balansau credydwy'r oedd yn ddyledus ar 31 Gorffennaf 2025.

Llif Arian Parod

Cyrhaeddodd sefyllfa arian parod y Brifysgol a'r Grŵp uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2022. Ar ôl hynny mae'r balansau arian parod wedi'u defnyddio yn y gwariant cyfalaf a nodir uchod yn y flwyddyn gyfredol a blaenorol ac wrth wasanaethu'r diffyg a gofnodwyd yn y Flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023. Roedd y mewnlif arian parod net cyfunol o weithgareddau gweithredu yn £7.5 miliwn am y flwyddyn (2024: all-lif o £3.6 miliwn) ac roedd y mewnlif arian parod cyffredinol yn £2.9 miliwn (2024: all-lif o £29.9 miliwn).

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cael eu heffeithio gan gynnydd o £4.7 miliwn mewn balansau dyledwyr a gostyngiad o £1.6 miliwn mewn balansau

credydwy'r.

Mae'r llif arian o weithgareddau buddsoddi yn cynnwys enillion o werthu asedau sefydlog o £0.01 miliwn (2024: £2.7 miliwn) llai taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog o £10.2 miliwn ac eiddo buddsoddi o £0.2 miliwn (2024: £2.9 miliwn).

Mae'r llif arian o weithgareddau ariannu yn cynnwys tynnu i lawr £7.0 miliwn o'r RCF (2024: £dim), ad-dalu benthyddiad tymor y Brifysgol o £2 filiwn a thaliadau llog o £2.7 miliwn (2024: £2.1 miliwn).

Benthycha

Yn ystod y flwyddyn defnyddiodd y Brifysgol orddrafft anwarantedig gyda Barclays. Daeth y cyfleuster gorddrafft i ben ym mis Mai 2025 ac ni chafodd ei adnewyddu.

Ym mis Gorffennaf 2025, lluniodd y Brifysgol Gyfleuster Credyd Cylchol (RCF) gwerth £30 miliwn gyda HSBC. Mae'r cyfleuster hwn wedi'i warantu ar yr un sail â'r benthychiad tymor presennol gyda HSBC heb unrhyw sicrwydd pellach wedi'i roi. Bydd yr RCF yn parhau tan fis Gorffennaf 2030. Tynnwyd swm cychwynnol o £7 miliwn cyn 31 Gorffennaf 2025 gyda hyn wedi'i gofnodi ar

y fantolen o dan gredydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Cadwodd y Brifysgol y benthychiad tymor fel rhan o'r adnewyddu. Mae'r ad-daliad cyfalaf ar y benthychiad yn parhau i fod yn £2 filiwn y flwyddyn, wedi'i dalu mewn 4 rhandaliad cyfartal. Ymestynnwyd dyddiad aeddfedu'r benthychiad i alinio â'r RCF tan fis Gorffennaf 2030.

Ceir manylion benthychiadau'r Brifysgol yn nodyn 20.

Hylifedd

Cymhareb gyfredol y Grŵp ar 31 Gorffennaf 2025 oedd 0.82 (2024: 0.84).

Mae rhagolygon llif arian misol manwl wedi'u paratoi ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Gorffennaf 2026 ac i mewn i'r flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2027, sy'n dangos bod digon o adnoddau arian parod a hylifedd yn ystod y cyfnod hwn i reoli ei faterion a'i weithrediadau cynlluniedig yn briodol. Mae'r rhagolygon hyn yn dangos llif arian cadarnhaol ar gyfer y ddau gyfnod.

Cynyddodd symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill £4.7miliwn ar gyfer y grŵp a £4.3 miliwn ar gyfer y Brifysgol, wedi'i yrru gan gynnydd yn swm y ffioedd myfyrwyr sy'n ddyledus ar 31 Gorffennaf.

Mae'r cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy yn adlewyrchu'r incwm cynyddol o ffioedd dysgu ac nid yw'n ddangosydd o adferadwyedd y balansau hyn.

Cyfanswm y credydwy'r sy'n ddyledus o fewn blwyddyn yw £72.1 miliwn ar gyfer y Brifysgol (2024: £64.2 miliwn), a £56.3 miliwn ar gyfer y Grŵp (2024: £66.8 miliwn). Mae'r cynnydd yn deillio'n bennaf o

gynnydd o £2.9 miliwn mewn incwm ffioedd dysgu gohiriedig sy'n adlewyrchu'r incwm cynyddol o ffioedd myfyrwyr a gynhyrchwyd yn sgil derbyniadau'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn, cynnydd o £1.5 miliwn mewn benthychiadau tymor byr, gostyngiad o £1 miliwn mewn credydwy'r masnach. Gostyngodd balansau cronus eraill £0.5 miliwn ar gyfer y grŵp a chynyddodd £1.9 miliwn ar gyfer y Brifysgol.

Mae'r gostyngiad mewn incwm gohiriedig yn cael ei yrru drwy ryddhau'r grant cyfalaf o £8.1 miliwn a ddelir ar 31 Gorffennaf 2023 yn ymwneud ag adeilad y Matrics Arloesi a gostyngiad o £2 filiwn mewn incwm grant gohiriedig wrth i brosiectau hirdymor ddod i ben.

Mae'r gostyngiad yn y credydwy'r masnach o ganlyniad i amseriad y trafodion. Nid oes unrhyw newid i'r polisi talu credydwy'r yn ystod y flwyddyn sy'n parhau i ddilyn arfer gorau. Mae polisi talu'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol anelu at dalu pob anfoneb ddiamheuol erbyn y dyddiad dyledus neu o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau ac anfoneb ddilys.

Cyfamodau

Y 3 chyfamod a oedd ar waith hyd at 30 Ebrill 2025 ar sail grŵp oedd

- Ni ddylai'r gymhareb o lif arian sydd ar gael i dalu costau gwasanaethu dyledion am y 12 mis blaenorol fod yn llai na 1.1 gwaith y costau gwasanaethu dyledion – dylai'r Gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn fod yn net o arian parod y fantolen agoriadol;
- Ni ddylai'r gymhareb o ddyled net i gyfanswm incwm fod yn fwy na 50%; ac
- Ni ddylai lefel yr asedau net cyfunol ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn fod yn llai na £105 miliwn.

Profwyd y cyfamodau hyn yn seiliedig ar gyfrifon rheoli'r Brifysgol ar 31 Hydref 2024, 31 Ionawr 2025, a 30 Ebrill 2025. Pasiwyd pob un o'r tri phrawf ar bob pwynt profi.

O dan y cytundeb benthycha newydd, ailddatganwyd y cyfamodau. Y Cyfamodau a oedd ar waith ar 31 Gorffennaf 2025 oedd:

- Ni ddylai'r gymhareb o lif arian sydd ar gael i dalu costau gwasanaethu dyledion am y 12 mis blaenorol fod yn llai na 1.1 gwaith y costau gwasanaethu dyledion – dylai'r Gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn fod yn net o arian parod y fantolen agoriadol;
- Ni ddylai'r gymhareb o ddyled net i gyfanswm incwm fod yn fwy na 50%; ac
- Ni ddylai lefel yr asedau net cyfunol ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn fod yn llai na £75 miliwn.

O dan y cytundeb benthycha newydd, nid oes angen prawf cyfamod ar gyfer Gorffennaf 2025.

Mae'r gyllideb a'r rhagolygon a baratowyd yn dangos y byddant yn cael eu pasio ar bob pwynt ar gyfer cyfnod y rhagolwg hyd at fis Rhagfyr 2026.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Pensiynau

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at 6 chynllun pensiwn buddion diffiniedig, y mae un ohonynt (USS) yn parhau i fod ar agor i aelodau newydd. Yn ogystal, mae'r ddau goleg AB yn cyfrannu at gynllun buddion diffiniedig. O'r cyfanswm o 8 cynllun, mae 2 Gynllun Pensiwn Athrawon (TPS) yn cael eu cyfrif fel cynlluniau cyfraniadau diffiniedig heb unrhyw ddarpariaeth fantolen, mae 4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ac 1 cynllun mewmol yn cael eu cyfrif fel darpariaethau pensiwn ac mae cynllun yr USS yn cael ei gyfrif fel darpariaeth ddiffyg. Cofnodir yr holl ddarpariaethau fel rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol.

Roedd y cynllun LGPS a'r cynllun mewmol mewn sefyllfa o warged ar 31 Gorffennaf 2025 a 31 Gorffennaf 2024. Cynhaliodd y Brifysgol adolygiad o'r rhagdybiaethau sylfaenol yn yr adroddiadau actiwaraid ar gyfer pob un o'r cynlluniau LGPS, TPS a'r cynllun mewmol a daeth i'r casgliad bod pob un o'r rhagdybiaethau chwyddiant, cyfradd ddisgowntio a symudiad cyflog o fewn yr ystod ddisgwyliedig, yn seiliedig ar adolygiad gan gymheiriaid o gynlluniau 5 sefydliad arall.

Mae'r Grŵp wedi asesu'r budd economaidd i'r dyfodol yn sgil sefyllfa warged ei

gynlluniau pensiwn. Gan nad yw'n rhagweld y bydd unrhyw fuddion economaidd o'r sefyllfa warged ar y cynllun LGPS neu'r cynllun mewmol, nid oes unrhyw warged wedi'i nodi ar unrhyw gynllun.

Mae FRS102 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gydnabod ei rhwymedigaethau i gyfrannu at ddiffyg Cynllun Pensiwn y Brifysgol (USS). Mae'r atebolrwydd hwn wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth pensiwn. Prosesir costau ychwanegol drwy gostau staff yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant.

Ar ôl rhyddhau diffyg pensiwn USS, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer diffyg pensiwn yr USS wedi'i chydabod ar 31 Gorffennaf 2025 neu 31 Gorffennaf 2024.

Iechyd Ariannol

Mae'r Brifysgol yn rheoli ei gweithgareddau'n rhagweithiol i gwrdd â heriau'r amgylchedd economaidd anodd sydd ohoni.

Mae dangosyddion allweddol gwarged, llif arian a hyblygrwydd bancio yn adlewyrchu'r amgylchedd heriol. Dylanwadwyd yn sylweddol ar y rhain dros y 3 blynedd diwethaf gan lefelau gwariant cyfalaf sylweddol gan arwain at ddirywiad mewn balansau arian parod. Mae cronfeydd wrth gefn y Grŵp a strwythurau ariannu allanol yn darparu digon o hyblygrwydd i gwrdd â'r heriau a wynebwr yn y tymor byr a darparu llwyfan ar gyfer llwyddiant a pherfformiad ariannol cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i reoli'r sefyllfa hon yn weithredol yn y dyfodol ac mae'r meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn cynnwys:

- adolygu'r portffolio academaidd i sicrhau bod ein cynnig yn ddeniadol, wedi'i gynllunio'n dda, wedi'i strwythuro ac wedi'i leoli'n briodol yn ddaeryddol i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer recriwtio, profiad a chanlyniadau myfyrwyr;
- gwella ein marchnata a chynyddu ein cyfran o'r marchnadoedd presennol a datblygol gyda chynnig i ddenu rhagor o fyfyrwyr i'n campysau yng Nghymru a thyfu gweithgaredd rhyngwladol.
- diffinio strwythurau sefydliadol o siâp, maint a dosbarthiad daeryddol priodol i ddarparu gwasanaethau a rhedeg y Brifysgol yn effeithiol.
- optimeiddio ein seilwaith a'n hól troed campws i gefnogi ystâd effeithlon, gynaliadwy sy'n addas i'r diben i

gyflawni ein gofynion addysgol a sefydliadol ac ymateb i ofynion newidiol ar ddefnydd.

- rheoli llif arian, gan gynnwys casglu derbynebau yn amserol gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfamodau banc;
- bod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r gostyngiadau mewn cyllid craidd gan Medr a Llywodraeth Cymru; ac
- ymateb i gyd-destun gwleidyddol newidiol Addysg Uwch yng Nghymru;

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025, mae gweithgarwch addysgu a rheolaethau costau cynyddol y Brifysgol wedi cynyddu'r gwarged a gafwyd trwy ei pherfformiad gweithredol. Bydd y Brifysgol yn parhau i geisio recriwtio rhagor o fyfyrwyr drwy bob un o'i phwyntiau mynediad a pharhau i reoli lefelau gwariant mewn ffordd a fydd yn gyrru gwarged gweithredol a dechrau ailgyflenwi'r cronfeydd ariannol sydd wedi gostwng dros y 3 blynedd blaenorol.

Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2026 yn nodi mewnllif arian parod net o £3.9 miliwn gyda'r blynyddoedd i ddod yn adeiladu ar y sefyllfa hon. Cymeradwywyd model rhagolygon 5 mlynedd gan gyngor y Brifysgol yn ystod y flwyddyn sy'n nodi cynhyrchu arian parod blynyddol cylchol gan arwain at beidio â defnyddio'r RCF ym mlynnyddoedd allanol y rhagolwg.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Busnes Gweithredol

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol ar gyfer 2024/2025 a chyllideb ar gyfer 2025/2026, roedd y Grŵp a'r Brifysgol yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd allanol heriol y mae pob darparwr addysg drydyddol yng Nghymru a'r DU yn gweithredu ynddo. Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn ystyried mai creu incwm a gwireddu'r incwm hwn mewn arian parod yw'r dull mwyaf priodol o gynnal cynaliadwyedd.

Am y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025, tyfodd incwm y Grŵp £7 miliwn, ac eithrio grantiau cyfalaf untro, er gwaethaf gostyngiad o £8.1 miliwn mewn Grantiau Cyfalaf. Tyfodd incwm y Brifysgol £4m ac eithrio'r gostyngiad hwn yn y grant cyfalaf, gydag incwm y Brifysgol o £132.0 miliwn (Grŵp £209.8 miliwn) yn cael ei ystyried yn ailadroddadwy.

Gwelwyd y myfyrwyr cyntaf ar gampws newydd y Brifysgol yn Llundain ym mis Mehefin 2024, gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer twf mewn ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith ehangu pellach yn ystod y flwyddyn yn darparu cyfleoedd incwm ychwanegol ar gyfer 2025/2026 a thu hwnt. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda'i phartneriaid i gynyddu lefel y myfyrwyr rhyngwladol o fewn ei phoblogaeth myfyrwyr a bydd yn elwa o gynnydd yn lefel ffioedd dysgu israddedig cartref o fis Medi 2025.

Wrth fynd i'r afael â'r sefyllfa ddiffyg ym mis Gorffennaf 2023, mae'r Brifysgol wedi gwneud nifer o benderfyniadau anodd ar draws pob maes gweithrediadau. Mae allbwn y penderfyniadau hyn wedi bwydo i mewn i berfformiad gwell y Brifysgol a'r Grŵp yn y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol, a bydd yn darparu sefydlogrwydd tymor hwy ar gyfer potensial cynhyrchu incwm y Grŵp a'r Brifysgol. Mae effaith y penderfyniadau hyn, ynghyd â'r gwelliannau gweithredol sy'n cael eu cymhwyso yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn arwain at gyllideb ar gyfer

2025/2026 gyda chynnydd mewn incwm ffioedd dysgu, cynnydd mewn gwarged gweithredu a chynhyrchu arian parod o £3.9 miliwn yn y Brifysgol. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon, mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn parhau i fod yn hyderus y bydd eu cyllidebau yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r twf mewn gwarged gweithredu yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn incwm ffioedd dysgu, trwy ehangiad bychan i gampws Llundain a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, cynnydd wedi'i dargedu mewn myfyrwyr rhyngwladol a thwf yn y ffi dysgu israddedig amser llawn.

Cyflawnwyd yr amcanion arbed costau ar gyfer 2024/2025 gan y Brifysgol a'r grŵp ehangach gyda'r gyllideb ar gyfer 2025/2026 yn cynnal y sylfaen gostau heb arbedion pellach.

Mae costau cyflog y Brifysgol ychydig yn llai na 55% o gyfanswm yr incwm gyda'r gyllideb ar gyfer 2025/2026 yn dangos gostyngiad bach yn y gymhareb hon. Mae'r Brifysgol yn cydnabod effaith y gymhareb hon ar y perfformiad ariannol ac yn rheoli ei niferoedd staff yn unol â hynny i sicrhau bod unrhyw gynnydd mewn costau cyflog yn gymesur â chynnydd mewn incwm.

O fewn y broses gyllidebol, gosododd holl aelodau'r Grŵp dargedau priodol ar gyfer enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA) a chynhyrchu arian parod a fydd yn helpu i reoli eu metrig cynaliadwyedd – sef sefyllfa ariannol a rhagolygon y Grŵp a'r Brifysgol ochr yn ochr â bodloni eu cyfamodau bancio.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2025/2026 a'r rhagolygon ar gyfer 2026/2027 yn cydnabod y sylfaen gostau bresennol a'r pwysau allanol sy'n wynebu'r Grŵp a'r Brifysgol, gan arwain at lefelau costau darbodus a reolir yn ganolog mewn cyflogau a chostau heblaw cyflogau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhagolygon yn cael eu gwneud gyda rhagdybiaeth sylfaenol o gefnogaeth barhaus gan ei bancwyr wrth ddarparu ei chyfleuster benthyciad tymor. Ar 31 Gorffennaf 2025, cwblhaodd y Brifysgol Gyfleuster Credyd Cylchol gwerth £30 miliwn gyda HSBC a fydd yn darparu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer ei gweithgarwch gweithredol a buddsoddi dros y cyfnod 5 mlynedd. Ar 31 Gorffennaf 2025 roedd £7m o'r cyfleuster wedi'i dynnu i lawr fel y nodwyd yn nodyn 20. Yn rhan o gwblhau'r cyfleuster, aliniwyd cyfnod y cyfleuster benthyciad tymor presennol â'r RCF gyda'r ddau gyfleuster yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2030. Yn rhan o'r adnewyddu, cytunodd y Brifysgol ar gyfamodau wedi'u diweddarau ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni rhwymedigaethau'r cyfamod diwygiedig trwy gydol y cyfnod busnes gweithredol, hyd yn oed wrth ystyried y profion straen a sensitifrwydd.

Mae cyfamodau bancio'r Grŵp i HSBS yn cael eu profi'n chwarterol ar 31 Hydref, 31 Ionawr, 31 Ebrill a 31 Gorffennaf. Mae'r rhagolygon y cyfeirir atynt uchod yn dangos y bydd y Grŵp a'r Brifysgol yn cydymffurfio â'u cyfamodau yn ystod y cyfnod asesu ar yr achos sylfaenol a negyddol gyda senarios achos lliniaru.

Fel y nodwyd uchod ac yn y Datganiad Cyfunol o lif Arian, roedd mewnlif arian parod net o £2.9 miliwn yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 gydag mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu o £4.7 miliwn. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2025/2026 yn dangos parhad yn adferiad sefyllfa arian parod y Grŵp a'r Brifysgol gyda

mewnlif arian parod net disgwylledig o £3.9 miliwn. Yn ystod 2025/26 mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn bwriadu defnyddio'r cyfleuster cylchol y cyfeiriwyd ato uchod gyda HSBC i reoli eu llif arian misol. Daeth y cyfleuster gorddrafft gyda Barclays a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn hyd at Orffennaf 2025 i ben ar 31 Mai 2025 ac ni chafodd ei adnewyddu.

Mae sefyllfa cronfeydd arian parod y Grŵp a'r strwythur cyllido allanol ar gael ac yn ddigonol, hyd yn oed mewn senarios negyddol posibl, i ganiatáu i holl rwymedigaethau'r Grŵp a'r Brifysgol gael eu bodloni fel y dônt yn ddyledus am gyfnod o 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol.

Mae'r senarios negyddol a gymhwysir yn ystyried gostyngiad mewn incwm ffioedd dysgu, cynnydd mewn gwariant gweithredu a gorwariant mewn gwariant cyfalaf. Er eu bod yn ymddangos yn bosibl i'r Brifysgol, mae'r perfformiad yn y flwyddyn hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon yn awgrymu bod yr agweddau negyddol posibl yn annhebygol. Mae'r profion o ran y senarios negyddol yn rhoi hyder pellach yng ngallu'r Grŵp a'r Brifysgol i reoli unrhyw ansicrwydd sy'n codi yn y 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.

Mae allbwn y rhagolygon yn dangos bod y Brifysgol yn gallu cynhyrchu digon o arian parod yn y 12 mis o ddyddiad llofnodi'r cyfrifon i gyflawni ei rhwymedigaethau, a hefyd y bydd yr holl gyfamodau bancio yn cael eu bodloni yn yr un cyfnod. Mae'r cyfrifon yn cael eu cynhyrchu ar sail busnes gweithredol i adlewyrchu'r pwyntiau yr ymdrinnir â nhw uchod.

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y ffordd y mae'r Brifysgol yn gwneud busnes. Mae'r Brifysgol yn credu mai cynaliadwyedd amgylcheddol yw sylfaen cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol ehangach a'i fod yn rhan annatod o arfer sefydliadol da. Mae ganddi ddyletswydd i fodloni ei hun bod ei holl weithrediadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal gydag ystyriaeth briodol i'r amgylchedd.

Adrodd amgylcheddol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd fel egwyddor graidd. Gwelir hyn yn y Cynllun Strategol a'r Datganiad Polisi Amgylcheddol sy'n mynegi ei werthoedd o Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae cynaliadwyedd wedi'i wreiddio o fewn y Cynllun Gweithredu Strategol (2022 – 2025) ac mae gan Ystadau a Seilwaith ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd; mae'r rhain yn cynnwys: defnydd o ynni, cost cyfleustodau craidd, allyriadau Cwmpas 1 a 2. Caiff cynnydd ei fonitro trwy adroddiadau'r cynllun strategol blyneddol ac adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a ddarperir i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a Chyngor y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n benodol i weithredu Cynllun Rheoli Carbon ledled y Brifysgol i gyflawni Cwmpas 1 a 2 Sero Net erbyn 2030, a chwmpas 3 erbyn 2045.

Yn 2022, mabwysiadodd y Brifysgol Gynllun Interim Carbon Sero Net i ddangos ei hymrwymiad i reoli a lleihau ei hallyriadau carbon ac amlinellu cynllun ar gyfer hynny, y mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ei erbyn. Mae hyn wedi cynnwys: arwyddo Siarter Teithio lach Abertawe, bod yn rhan o grwpiau gweithredu Sero Net Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfathrebiadau allanol ar brosiectau dan arweiniad myfyrwyr. Hefyd gosodiadau solar, ôl-osod yr ystâd gydag opsiynau ynni effeithlon megis goleuadau LED, Pympiâu Gwres carbon isel ac ati.

Bydd adolygu'r cynllun hwn yn systematig yn galluogi'r Brifysgol i barhau â'r daith i Garbon Sero Net tra'n cynnal ystod o

Mae tîm cynaliadwyedd y Brifysgol yn cydweithio â'r Grŵp Datblygu Cynaliadwy a'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd yn y maes hwn ac mae'n parhau i gefnogi ymgorffori cynaliadwyedd o fewn cwricwlwm y Brifysgol ar bob lefel yn ogystal ag ymgysylltu â'r nifer ehangaf o sefydliadau i ddatblygu arfer cynaliadwy ar draws pob sector yng Nghymru a'r tu hwnt.

asesiadau a fydd yn llywio datblygiad cynllun tair blynedd a fydd yn cydnabod y cynnydd hyd yn hyn ac yn mapio ymhellach y llwybr i Garbon Sero Net.

Mae'r prif feysydd a nodwyd ar gyfer lleihau carbon yn dod o dan y canlynol:

- Gweithredu Rhaglen Fonitro er mwyn sicrhau bod y defnydd o ynni a'r defnydd o ddŵr yn cael eu monitro'n effeithiol drwy ddarparu a defnyddio System Rheoli Ynni a alluogir gan becyn meddalwedd priodol;
- Mae'r holl brosiectau cyfalaf newydd yn cael eu hadeiladu i sgôr 'Rhagorol' BREEAM Carbon Sero Net ac mae gostyngiad cysylltiedig yn effaith y gadwyn gyflenwi a gwastraff;
- Gwella effeithlonrwydd ynni gweddill yr ystâd yn sylweddol, gan roi ystyriaeth lawn i gynlluniau gwresogi newydd ac ynni adnewyddadwy a rhoi'r gorau i ddefnyddio nwy. Rhaid i gynlluniau datblygu campysau flaenoriaethu cyfleoedd datgarboneiddio fel sgopio ar gyfer prosiectau peilot Gwresogi Carbon Isel/Dim Carbon a gwneud cynnydd sylweddol ar ddeall a gweithredu'r cyfleoedd effeithlonrwydd ynni sy'n weddill, sy'n cynnwys defnyddio rheolaethau effeithiol ar gyfer rheoli adeiladau;
- Lleihau gwastraff ar draws y sefydliad er mwyn lleihau prosesu gwastraff, llygredd a gweithgarwch tirlenwi wrth fodloni'r Ddeddfwriaeth Gwastraff Newydd i Gymru a ddaeth i rym yn 2024.

Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn:

- Datblygu model o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl a fydd yn lleihau'r angen i deithio ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr sy'n hyrwyddo teithio allyriadau isel, teithio llesol ac sy'n annog mwy o ddefnydd o drafndiaeth gyhoeddus, gan leihau cymudo mewn ceir a theithio busnes;
- Cymhwyso egwyddorion economi gylchol i'n gweithgareddau caffael, gan ymgorffori cyfnod lleihau carbon cadarn sy'n asesu effaith carbon nwyddau a gwasanaethau yn ystod hyd eu hoes;
- Defnyddio marchnadoedd y DU ar gyfer gwerthoedd atafaelu carbon i ddatblygu cyfrifiad asedau tir;
- Datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy i leihau ein hól-troed carbon, lliniaru risg busnes yn erbyn gorlwytho a diffyg pŵer ar y Grid Cenedlaethol;
- Ymgysylltu â myfyrwyr a staff drwy ddull cyfunol o ddigwyddiadau digidol ac wyneb yn wyneb sy'n anelu at hyrwyddo newid ymddygiad sy'n creu Cymru sy'n effro i'r hinsawdd;
- Gwneud y mwyaf o secwestru carbon drwy fioamrywiaeth ei daliadau tir.

Yn ganolog i hyn mae creu llwybr atebolrwydd clir sy'n sicrhau bod cynaliadwyedd yn dod yn rhan annatod o bolisi ac yn sefydlu cyfrifoldeb ar y cyd i gael effaith gadarnhaol ar ein pobl, ein cymunedau a'n planed.

Mae'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG) yn gyfrifol am gefnogi'r agenda Cynaliadwyedd ar gyfer Grŵp y Brifysgol, ac am fonitro a mesur

cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad i gadarnhau gweithrediad effeithiol ac aliniad gydag amcanion a strategaeth sefydliadol. Mae'n adolygu strategaeth a pholisi (lle bo hynny'n briodol) ac yn eu cymeradwyo neu'n eu cyfeirio at yr Uwch Dîm Arwain yn ôl yr angen, wrth weithio i sicrhau bod gofynion Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn cael eu bodloni. Cadeirydd y grŵp llywio hwn yw'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n allweddol wrth yrru'r newid sefydliadol.

Mae'r Grŵp Datblygu Cynaliadwy (SDG) yn cynnwys rheolwyr ar draws pob gwasanaeth academiaidd a phroffesiynol yn y Brifysgol yn ogystal â Sir Gâr. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth myfyrwyr, ac mae aelodaeth yn agored i'r holl fyfyrwyr sy'n dymuno bod yn rhan ohono. Maent yn gyfrifol am greu cynllun gweithredu cynaliadwyedd adrannol gan gasglu awgrymiadau a chmau gweithredu i symud yr agenda cynaliadwyedd yn ei blaen i gyflawni ein hymrwymadau, gan gynnwys yr uchelgais Carbon Sero Net erbyn 2030. Mae'r grŵp yn hyrwyddo ac yn cyfathrebu cynaliadwyedd ar draws y sefydliad cyfan. Mae hyn wedi arwain at nifer o fentrau yn ymwneud â Sero Net yn cael eu cyflwyno i staff, megis ein menter "Un Campws, Un Diwrnod" sydd â'r nod o leihau teithio rhwng campysau yn ogystal â darparu fforwm ymgynghori ar gyfer datblygu, gwirio a herio polisiau. Mae aelodaeth y grwpiau hyn yn sicrhau goruchwyliaeth a chefnogaeth lefel uwch ar gyfer yr agenda hon, yn ogystal â sicrhau ymgysylltu ac ymgynghori ag uwch swyddogion o ran effaith ehangach Grŵp y Brifysgol.



Rowland Jones
(Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad)



Gavin Bessant
(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol)

Adroddiad ar y Cyd ar y Flwyddyn Ariannol

Datganiad Buddion Cyhoeddus

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig a'i rhif elusen yw 1149535.

Mae ein Cenhadaeth o Drawsnewid Addysg: Trawsnewid Bywydau yn deillio o Amcanion ein Siarter Brenhinol i 'hyrwyddo addysg a lledaenu gwybodaeth drwy addysgu, ysgolheictod ac ymchwil er budd y cyhoedd'.

Mae'r Amcanion hyn yn ffurfio dibenion elusennol y Brifysgol er budd y cyhoedd.

Wrth osod amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol a'u hadolygu, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fudd cyhoeddus ac yn arbennig i'w ganllawiau budd cyhoeddus atodol ar hyrwyddo addysg.

Llwyddiant Academaidd

Mae addysg er budd y cyhoedd wrth wraidd gwerthoedd y Brifysgol. Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i adeiladu cymunedau cryf ar bob safle ac o fewn cymunedau academiaidd ein partneriaid. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd dysgu a gwaith cynhwysol, cefnogol lle gall yr holl staff, myfyrwyr a dysgwyr ffynnu a chyflawni eu potensial personol. Nid un grŵp yw Myfyrwyr PCYDDS, maent yn cynnwys y canlynol - ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain - myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr anabl, myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr LHDTG+ a myfyrwyr o ragor o grwpiau heb

gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae ein myfyrwyr yn dod ag ystod eang o gymwysterau a phrofiadau blaenorol sy'n gwella cymuned ein Prifysgol. Bydd deall y rhwystrau sy'n wynebu'r gwahanol fyfyrwyr hyn, ac effaith croestoriadau rhwng nodweddion gwahanol, yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r rhwystrau a wynebir gan wahanol grwpiau o fyfyrwyr yn annibynnol ar ei gilydd a thrwy ei chenhadaeth, nod y Brifysgol yw gweithio i leihau'r rhwystrau hyn i alluogi llwyddiant myfyrwyr.

Ysgolheictod ac Ymchwil

Mae ein hymchwil a'n hymgysylltiad yn creu effaith yn y parth cyhoeddus, gan wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein gweithgarwch ymchwil yn hanfodol i gyflawni cenhadaeth a diben cyhoeddus y


Brifysgol, ac mae'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi yn ceisio sicrhau y dylai pob maes ymchwil wneud cyfraniad cadarnhaol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cyfrwng Cymraeg

Mae ein hymrwymiad i ddysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymraeg yn seiliedig ar Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad cadarn i sicrhau cyfleoedd i ddysgu ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Strategaeth

Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd ac ethos cefnogol i unigolion sy'n dysgu'r iaith neu'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.



The background of the slide is a faded, light-colored image. The top half shows a group of people, including a woman with blonde hair and a man with a beard, both smiling. The bottom half shows a person's hands typing on a laptop keyboard. A dark blue horizontal bar is positioned across the middle of the slide, containing the title text.

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Trosolwg Llywodraethu

Yn unol â Siarter Frenhinol Atodol y Brifysgol, y Cyngor yw corff llywodraethu’r Brifysgol ac mae’n gyfrifol, drwy Statud, am gymeradwyo’r cynlluniau strategol ar gyfer y Brifysgol, ac am lywodraethu a rheoleiddio ei chyllid, ei chyfrifon, ei buddsoddiadau, ei heiddo, ei busnes a’i materion ariannol. Nodir ei Brif Gyfrifoldebau yn Ordinhadau’r Brifysgol.

Mae’r Cyngor yn cynnwys llywodraethwyr staff a myfyrwyr annibynnol a apwyntiwyd o dan Statudau ac Ordinhadau’r Brifysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn llywodraethwyr anweithredol. Yn ogystal, mae aelodau’r Cyngor yn ymddiriedolwyr y Brifysgol. Mae llefydd gwag ar gyfer aelodau annibynnol yn cael eu hysbysebu’n allanol a gwneir apwyntiadau yn dilyn proses cyfweld a dethol. Mae rôl Cadeirydd y Cyngor wedi’i gwahanu oddi wrth rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, yr Is-Ganghellor. Gwasanaethir y Cyngor gan Glerc sy’n atebol i’r Cadeirydd.

Mae’r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn yn ogystal ag arfer ei gyfrifoldebau drwy’r rheolwyr gweithredol a sawl pwyllgor sefydlog. Mae Cynllun Dirprwyo yn nodi ble y gorwedd awdurdod gwneud penderfyniadau yn enw’r Cyngor neu ar ei ran, a ble y gellir dirprwyo’r awdurdod hwn neu ble mae wedi’i ddirprwyo. Mae’r pwyllgorau sefydlog yn cael eu cadeirio gan aelodau annibynnol y Cyngor ac mae gan bob un ohonynt fwyafrif o aelodau annibynnol. Mae aelodau staff a myfyrwyr y Cyngor yn aelodau o bob pwyllgor sefydlog ac eithrio’r pwyllgor Archwilio a Risg. Mae uwch swyddogion y Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.

Cynhelir cofrestr o fuddiannau a’i chyflwyno’n flynyddol ar gyfer holl aelodau’r Cyngor a’r pwyllgorau sefydlog ynghyd ag uwch swyddogion y Brifysgol a’i his-gwmnïau. Mae Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau’r Pwyllgor yn darparu gwybodaeth ar y gweithdrefnau i’w dilyn pe bai gwrthdaro buddiannau neu deyrngarwch yn codi.

Pwyllgor Academaidd

Mae’r Pwyllgor Academaidd yn darparu cyngor i’r Cyngor ar ei benderfyniadau ar gymeriad addysgol y Brifysgol.

Cyfarfu’r Pwyllgor ddwywaith yn ystod 2024/25. Ystyriwyd ystod o faterion o fewn cwrdd ei gylch gwaith, gan gynnwys adroddiadau ar y profiad myfyrwyr, yr amgylchedd dysgu, gweithgareddau rhyngwladol a sicrhau ansawdd; strategaeth y Brifysgol ar gyfer datblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; ac adroddiad gan Goleg Sir Gâr ar ddysgwyr a safonau. Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Senedd i Gyngor y Brifysgol a’r sicrwydd a roddodd ar gynnal ansawdd a safonau yn dilyn ei gyflwyno i’r Cyngor llawn ym mis Tachwedd 2024.

Roedd meysydd ffocws penodol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys adolygiad cwricwlwm eang a phartneriaethau cydweithredol y Brifysgol. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau monitro ar strategaethau mewn ystod o feysydd, gan gynnwys dysgu ac addysgu, iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr, y Gymraeg ac ehangu cyfranogiad.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda phresenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Geraint Roberts (Cadeirydd) (100%); Emlyn Dole (50%); Natalie Beard (50%); Yr Athro Elwen Evans (50%); Dr Deborah Hughes (100%); Uzo Iwobi (ymddiswyddodd Ionawr 2025; 0%); Deris Williams (50%).

Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo archwilio a risg ar draws Grŵp PCYDDS gyda chylch gorchwyl sy’n seiliedig ar y cylch gorchwyl enghreifftiol a nodir yng Nghod Ymarfer Pwyllgorau Archwilio Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC). Mae’r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2024/25. Ystyriodd amrywiaeth o faterion o fewn cwrdd ei gylch gwaith, gan gynnwys cynlluniau a chanfyddiadau archwilio mewnol ac allanol; datganiadau ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor; y gofrestr risgiau corfforaethol a'r map sicrwydd; adroddiad tryloywder ddwywaith y flwyddyn ar ystod o faterion gan gynnwys caffael a rhyddid gwybodaeth; adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban; perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol a threfniadau ar gyfer tendro’r gwasanaeth archwilio yn 2025/26; ac adroddiadau gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Coleg Sir Gâr.

Roedd yr aelodau fel a ganlyn (gyda phresenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Nigel Roberts (Cadeirydd) (100%); Timothy Llewelyn (100%); Adrian Evans (cyfetholedig; 75%); Jacqui Kedward (cyfetholedig; 100%)

Nid oes unrhyw draws-aelodaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Pwyllgor Craffu’r Grŵp

Mae Pwyllgor Craffu’r Grŵp yn goruchwyllo is-gwmnïau’r Brifysgol, gan ganolbwyntio’n benodol ar strategaethau sy’n ymwneud â’r berthynas rhwng y Brifysgol a Choleg Sir Gâr.

Yng ngoleuni trafodaethau strategol ehangach am y Grŵp, ni chyfarfu'r Pwyllgor yn 2024/25. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar is-gwmnïau yn uniongyrchol i'r Cyngor i'w ystyried.

Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gyfrifol am fonitro gallu'r Cyngor o ran llywodraethu corfforaethol a'i drefniadau llywodraethu ar gyfer y Brifysgol a Grŵp ehangach PCYDDS. Mae'n monitro anghenion cyfansoddiadol ac aelodaeth y Cyngor ac yn gwneud argymhellion ar gyfer penodiadau i bwyllgorau a chyrrff eraill.

Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn 2024/25. Ystyriodd amrywiaeth o faterion o fewn cwmipas ei gylch gwaith, gan gynnwys y strategaeth recriwtio ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd; yr adolygiad bob dwy flynedd o'r Cod Ymarfer mewnol ar gyfer Aelodau'r Cyngor; adroddiadau llywodraethu gan Goleg Sir Gâr; adroddiadau ar gwynion; ac enwebiadau ar gyfer gwobrau er anrhydedd.

Roedd y meysydd gwaith allweddol yn 2024/25 yn cynnwys trefniadau ar gyfer yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu a gynhaliwyd yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2025; cytuno ar y data i lywio'r gwaith o fonitro cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Cyngor; a monitro trydedd flwyddyn gweithredu cynllun datblygu a chadw'r Cyngor. Dewiswyd dau lywodraethwr annibynnol newydd a'u hargymell i'w penodi i'r Cyngor gan banel o'r Pwyllgor.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda phresenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Dr Liz Siberry (Cadeirydd; 100%); Maria Dinu (100%); Emlyn Dole (100%) Yr Athro Elwen Evans (67%); Dr Stuart Robb (100%); Emlyn Schiavone (67%); Deris Williams (67%).

Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn penderfynu'n flynyddol ar gyflogau, telerau ac amodau a, lle y bo'n briodol, amodau diswyddo'r Is-Ganghellor ac uwch staff penodedig eraill. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Pwyllgor yn ystyried ystod o fesurau cyd-destunol allanol a chymharol wrth benderfynu dyfarniadau cyflog fel y nodir yn y Datganiad Polisi Tâl blynyddol.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn 2024/25. Ystyriodd amrywiaeth o faterion o fewn cwmipas ei gylch gwaith, gan gynnwys adolygiadau cyflog blynyddol i'r staff o fewn ei gylch gwaith gyda gwybodaeth ategol berthnasol gysylltiedig; a datganiad Polisi Tâl blynyddol y Brifysgol

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda phresenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Justin Albert (Cadeirydd) (100%); Dr Tracy Cruickshank (100%); Maria Dinu (100%); Emlyn Dole (100%); Geraint Roberts (100%); Dr Liz Siberry (100%).

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei Datganiad Polisi Tâl blynyddol ar ei gwefan y gellir ei weld drwy'r ddolen ganlynol:

[Strategaethau a Pholisïau | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant](#)

Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn goruchwyllo cynllunio strategol a materion ariannol y Brifysgol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2024/25. Ystyriodd amrywiaeth o faterion o fewn cwmipas ei gylch gwaith, gan gynnwys datblygiadau strategol; asesiadau perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Strategol, y Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol, a thargedau'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad; adroddiadau ar recriwtio a chadw myfyrwyr; perfformiad ariannol yn erbyn rhagolygon a chyllidebau a chynaliadwyedd sefydliadol; pensiynau; adroddiadau ariannol gan Undeb y Myfyrwyr; materion adnoddau dynol gan gynnwys cymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol ac adroddiadau gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol; ac adroddiadau yn ymwneud â chyllid ac adnoddau o Goleg Sir Gâr.

Roedd yr aelodaeth fel a ganlyn (gyda phresenoldeb (%) yn cael ei ddarparu mewn cromfachau): Rowland Jones (Cadeirydd) (100%); Justin Albert (100%); Natalie Beard (75%); Emlyn Dole (75%); Yr Athro Kyle Erickson (100%); Yr Athro Elwen Evans (100%); Emlyn Schiavone (75%); Katrin Shaw (100%).

Y Senedd

Yn ogystal, mae'r Senedd, sef awdurdod academiaidd y Brifysgol y daw ei haelodaeth yn bennaf o blith staff academiaidd a myfyrwyr y sefydliad, yn adrodd i'r Cyngor. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gwaith addysgu ac ymchwil y Brifysgol.

Uwch Dîm Arwain

Ar lefel weithredol, mae'r Uwch Dîm Arwain yn cwrdd yn rheolaidd mewn rôl gynghorol i gefnogi'r Is-Ganghellor wrth lunio cynigion ar gyfer cyfeiriad strategol y Brifysgol. Cynhaliwyd 21 o gyfarfodydd yn 2024/25 Trafodir ystod eang o bynciau yn y cyfarfodydd – yn rhai strategol a gweithredol.

Yn 2024/25 roedd aelodaeth yr Uwch Dîm Arwain yn cynnwys: yr Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pro Is-Gangellorion, y Deoniaid, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol, Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Ymgysylltydd Staff.

Cod Llywodraethu Addysg Uwch CUC

Mae'r Brifysgol yn anelu at safonau uchel o lywodraethu corfforol. Fel corfforaeth a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol gyda statws elusennol, nid yw'r Brifysgol yn dod o fewn gofynion adrodd llywodraethu corfforaethol Cyfnewidfa Stoc Llundain, ond mae'n ceisio dangos bod ei llywodraethant yn cael ei wneud mewn modd agored ac atebol a'i bod yn anelu at arfer gorau yn y sector addysg uwch. Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor gofrestru bob blwyddyn i God Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac atebolrwydd a ddisgwyli'r ganddynt yn eu rôl fel llywodraethwyr y Brifysgol ac ymddiriedolwyr elusennau; egwyddorion a gwerthoedd y Brifysgol a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cyffredinol; a dull y Brifysgol o ymdrin â materion fel cyfrinachedd a datgan buddiannau.

Mae trefniadau llywodraethu'r Brifysgol wedi'u datblygu i adlewyrchu'r egwyddorion a'r arferion a nodir yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch CUC, a chyhoeddwyd yr iteriad diweddaraf ym mis Medi 2020. Drwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, mae'r Cyngor wedi adolygu ei arferion yng nghyd-destun y Cod ac wedi cadarnhau bod yr Elfennau Sylfaenol ar waith a bod trefniadau'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion allweddol. Yn 2025 comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu a oedd yn cynnwys ystyriaeth gyfannol o gadw at y Cod.

Canfu'r adroddiad dilynol fod y Brifysgol yn bodloni disgwyliadau'r Cod, gyda sawl maes ar gyfer datblygu pellach wedi'u nodi. Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2025 ac mae cynllun gweithredu yn cael ei baratoi.

Adolygodd y Cyngor ei gydymffurfiaeth â Chod Taliadau Staff Uwch Addysg Uwch CUC (Mehefin 2018) drwy ei Bwyllgor Taliadau yn 2018/19. Cynhaliwyd adolygiad pellach yn 2020 yn sgil argymhellion Adolygiad Camm ac yn 2022 yn dilyn cyhoeddi Cod wedi'i ddiweddarau. Mae arferion y Brifysgol yn cadw'n llawn at ddisgwyliadau'r Cod. Trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg mae'r Cyngor hefyd wedi cadarnhau bod elfennau o God Ymarfer Pwyllgorau Archwilio Addysg Uwch CUC (Mai 2020) wedi'u mabwysiadu.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o ymagwedd y Brifysgol at Lywodraethu ym mis Rhagfyr 2023 a rhoddodd sicrwydd sylweddol ar yr amgylchedd rheoli, gydag un argymhelliad wedi'i nodi mewn perthynas ag asesu sgiliau. Mae'r archwiliad Llywodraethu Grŵp nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2025.

Adolygiad Camm o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru

Mae'r Cyngor wedi croesawu'r Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru gan Gillian Camm ('Adolygiad Camm'), y cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Chwefror 2020. Ym mis Gorffennaf 2020, mabwysiadodd y Cyngor yn ffurfiol y Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Gadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) a Phrifysgolion Cymru a chytunodd ar gynllun gweithredu mewn ymateb i'r Ymrwymiad i Weithredu cysylltiedig. Mae gweithrediad y Cyngor ar y cynllun bellach wedi'i gwblhau ac mae wedi llywio arferion llywodraethu mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r gwaith a wnaed yn cynnwys:

- adolygu data meintiol ac ansoddol yn ffurfiol sy'n ymwneud â diwylliant sefydliadol a chytuno ar fecanwaith ar gyfer sicrhau adfyfrio blynyddol gan y Cyngor;
- ystyried y canllaw arfer da ar draws y sector ar ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- cadarnhau ei ddisgwyliadau mewn perthynas â maint a siâp y corff llywodraethu a chyfrifoldebau ac ymddygiadau'r llywodraethwyr;
- gweithredu strategaeth recriwtio a sefydlu dreigl gyda ffocws ar amrywiaeth;
- adolygu strwythur y pwyllgor sefydlog;
- cadarnhau ei ymagwedd at annibyniaeth llywodraethwyr a rheoli gwrthdaro;
- adolygu ei drefniadau ar gyfer llywodraethu

- taliadau;
- cwblhau adolygiad o bolisi rheoli risg;
- adolygu'r broses archwilio mewnol;
- comisiynu adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban;
- cymeradwyo'r datganiadau ar annibyniaeth, rôl yr ysgrifennydd a'r adroddiadau blynyddol a ddatblygwyd drwy'r Grŵp Clercod ac Ysgrifenyddion Cymru;
- cymeradwyo dull o gynllunio olyniaeth arweinyddiaeth;
- mabwysiadu'r templed newydd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol;
- cymeradwyo a gweithredu cynllun datblygu a chadw llywodraethwyr;
- cymryd rhan mewn gweithdai AU Ymlaen yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth a datblygu Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

- Ffocws allweddol i'r Cyngor yn dilyn Adolygiad Camm yw mynegi, cyfnerthu a gwella trefniadau ar gyfer sefydlu a datblygu llywodraethwyr. Mae trefniadau sefydlu ffurfiol a chynhwysfawr, gan gynnwys cynllun 'cyfeillion' ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd, wedi'u cyflwyno, ac mae cynllun datblygu a chadw wedi'i weithredu, gan nodi'r cyfleoedd (gorfodol a dewisol) a ddarperir ar gyfer pob llywodraethwr. Mae cadw cofnodion wedi'i ffurfioli, yn ogystal â'r dull o arfarnu.

Datganiad Rheolaeth Fewnol

Fel corff llywodraethu’r Brifysgol, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy’n cefnogi cyflawni cynlluniau strategol, nodau ac amcanion y sefydliad, a hynny tra’n diogelu’r cyhoedd a chronfeydd ac asedau eraill y mae’n gyfrifol amdanynt, yn unol â’r cyfrifoldebau a neilltuwyd i’r Cyngor yn y Siartr a’r Statudau, a’r Telerau ac Amodau Cyllido blynyddol a gyhoeddwyd gan Medr (CCAUC gynt).

Mae’r system reoli fewnol yn cynnwys polisiâu, rheoliadau a chynlluniau; monitro perfformiad ariannol a gweithredol; gwahanu dyletswyddau; gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo; systemau gwybodaeth; a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol effeithiol. Yn ogystal, mae’n cynnwys proses barhaus a ddyluniwyd i adnabod y prif risgiau i gyflawni’r cynlluniau a’r amcanion strategol, gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a’u rheoli’n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae’r systemau wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a’r datganiadau ariannol. Mae’r system yn cyd-fynd â chanllawiau perthnasol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Mae’r system rheolaeth fewnol wedi’i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu’r risg o fethiant wrth gyflawni amcanion busnes; mae felly’n darparu sicrwydd rhesymol ond nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ac nid sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled faterol.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg awdurdod penodol a ddirprwywyd gan y Cyngor i fonitro ac adolygu materion rheolaeth fewnol ar ei ran ac i adrodd i’r Cyngor ar y materion hyn. Mae Archwilwyr Mewnol Annibynnol yn cynnal adolygiad rheolaidd o’r systemau rheolaeth fewnol; mae cwrmpas eu gwaith yn cael ei benderfynu, ymlaen llaw, gan y Pwyllgor Archwilio a Risg sy’n derbyn eu hadroddiadau a’u hargymhellion. Mae’r meysydd i’w hadolygu yn cael eu pennu gan eu harwyddocâd i weithrediadau’r Brifysgol a’r risgiau’n gysylltiedig gyda’u methiant; maent yn cynnwys materion gweithredol a chydymffurfiaeth yn ogystal â risg ariannol. Mae’r Archwilwyr Mewnol yn mynychu pob cyfarfod o’r Pwyllgor ac yn cwrdd yn breifat gydag aelodau annibynnol ar bob achlysur. Adroddir ar drafodaethau’r Pwyllgor Archwilio a Risg ymhob cyfarfod o’r Cyngor.

Mae’r Brifysgol wedi sefydlu methodoleg gadarn ar gyfer gwerthuso a rheoli risg ar sail barhaus, sydd wedi’i gysylltu’n benodol â chyflawni amcanion sefydliadol. Mae Grŵp PCYDDS a chofrestrau risgiau corfforaethol y Brifysgol sy’n

graddio tebygolrwydd ac effaith risgiau a nodwyd, yn cael eu cynnal a’u hadolygu’n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arwain. Mae cofrestrau risgiau adrannol yn cael eu datblygu a’u hadolygu ar lefel leol, gyda risgiau’n cael eu huwchgyfeirio i’r gofrestr risgiau corfforaethol fel y bo’n briodol. Yn ogystal, cynhelir cofrestrau ar gyfer prosiectau a gweithgareddau mawr arwahanol. Ystyrir y gofrestr risgiau corfforaethol ym mhob cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg ac ystyrir newidiadau arfaethedig gan y Cyngor. Adolygwyd Polisi Rheoli Risg y Grŵp a lluniad y gofrestr risgiau yn gynhwysfawr yn 2023/24 gyda’r adolygiad nesaf wedi’i drefnu ar gyfer 2025/26. Mae map sicrwydd, sy’n dilyn y model 3 llinell a gefnogir gan Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol yn rhoi trosolwg o’r mecanweithiau sydd ar waith i oruchwyllo’r risgiau a nodwyd ar y gofrestr risgiau corfforaethol ac i hwyluso nodi meysydd sydd angen eu cryfhau.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o ymagwedd y Grŵp at Reoli Risg yn haf 2022 a ddarparodd sicrwydd digonol ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol a sicrwydd sylweddol ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol. Disgwylir i’r archwiliad nesaf gael ei gynnal yn 2025/26.

Mae Archwilwyr Mewnol y Brifysgol, Forvis Mazars, yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy’n ymdrin â’r meysydd archwilio penodol a adolygwyd yn ystod y flwyddyn ochr yn ochr â sgôr asesu cyffredinol ar gyfer y flwyddyn. Ymdriniodd yr adroddiad ar gyfer 2025/2026 â 9 o archwiliadau penodol, gan ddod i’r casgliad bod fframwaith y Brifysgol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn gymedrol o ran ei ddigonolrwydd a’i effeithiolrwydd cyffredinol.

Mae adolygiad y Cyngor ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol hefyd yn cael ei lywio gan waith uwch swyddogion yn y Brifysgol, sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a thrwy sylwadau a wnaed gan yr Archwilwyr Allanol yn eu llythyr rheoli diwedd blwyddyn ac adroddiadau eraill.

Nid oes unrhyw wendidau neu fethiannau rheoli mewnol sylweddol wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol neu ar ôl y flwyddyn ariannol, ond cyn i’r datganiadau ariannol hyn gael eu llofnodi. Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw achosion o dwyll gwirioneddol neu amheuaeth o dwyll yn ystod y gwaith archwilio a wnaed yn y cylch archwilio mewnol.

Rheoli Risg / Cofrestr Risgiau

Mae’r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn gosod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli risg, gan gynnwys y broses barhaus o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau.

Caiff cofrestr risgiau gynhwysfawr ei chynnal gan y Brifysgol gyda risgiau penodol yn cael eu neilltuo i’r uwch reolwyr a’r penaethiaid adrannau priodol. Cyfrifoldeb y perchnogion risg hyn yw nodi a gweithredu camau lliniaru i ddiogelu’r Brifysgol.

Casgliad

Mae’r sector Addysg Uwch yn un o’r heriau sy’n esblygu’n barhaus ac nid yw’n ddiogel rhag y pwysau chwyddiant sydd wedi effeithio ar economi’r DU ac sy’n parhau i effeithio arni. Bydd yr heriau sy’n wynebu’r sector yn parhau drwy gydol unrhyw gyfnod y gellir ei ragweld yn rhesymol.

Fel ymateb, mae’r Brifysgol yn parhau i gryfhau ei gweithrediadau craidd a darparu gwahaniaeth

Dyrennir ‘sgôr’ cychwynnol i risgiau, yn seiliedig ar y tebygolrwydd o ddigwydd ac effaith ar y Brifysgol gyda diweddariadau ym mhob pwyllgor perthnasol a chyfarfod y Cyngor yn manylu ar y cynnydd tuag at liniaru camau gweithredu / camau gweithredu newydd a nodwyd a sgôr risg wedi’i ddiweddarau ar ôl lliniaru.

Cyflwynir diweddariad llawn i’r gofrestr ym mhob cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a Risg.

mewn cynhyrchion a marchnadoedd.

Mae rheoli costau yn parhau i fod yn ffocws allweddol i’r Brifysgol ac mae’r gweithgarwch a fu yn y blynyddoedd blaenorol wedi darparu sylfaen gadarn y gall y Brifysgol ymateb i’r heriau y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol a sicrhau sefyllfa weithredu gynaliadwy i gwrdd â heriau’r dyfodol.

Emlyn Dole

Cadeirydd Cyngor y Brifysgol

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor

Mewn Perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Datganiadau Ariannol Cyfunol yn unol â gofynion Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr, y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon"), y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("FMC") a'r gyfraith a'r rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102, Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a gofynion y Ddeddf Elusennau 2011. Yn ogystal, mae Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â Datganiad o Arfer Argymelledig 2019 - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg gywir a theg ar gyflwr materion y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol a'u

hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau yn eu cronfeydd wrth gefn, yn ogystal â llif arian y Grŵp, am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac wedyn eu cymhwyso'n gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad o Arfer Argymelledig wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-Brifysgol, neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac egluro trafodion y rhiant-Brifysgol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-Brifysgol. Mae'n gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath y mae'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

- Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod:
- cyllid o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
 - incwm yn cael ei gymhwyso, lle bo'n briodol, yn unol â pharagraff 145 o'r FMC;
 - grantiau'r Cyngor Cyllido yn cael eu defnyddio yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25;
 - rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar

waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a

- rheolaeth economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

Datganiad gwybodaeth i'r archwilydd

O ran pob un o'r aelodau a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn:

- a) nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Brifysgol yn ymwybodol ohoni; ac*
- b) mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef neu hi fod wedi eu cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Brifysgol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno*

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ("y Brifysgol") ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

- Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:
- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Grŵp a materion y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2025, ac o incwm a gwariant y Grŵp ac incwm a gwariant y Brifysgol, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, a llif arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hynny;
 - wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a Datganiad o Arfer Argymelledig 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
 - wedi eu paratoi yn unol â gofynion y Ddeddf Elusennau 2011

Sail i’r Farn

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilwyr o dan Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) ("ISAs (UK)") a’r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan y Grŵp ac yn annibynnol ohono, yn unol â gofynion moesegol y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn sail ddigonol a phriodol i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredolo gan nad yw'n bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Brifysgol na rhoi'r gorau i'w gweithrediadau, a chan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Yn ogystal, mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd materol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ynghylch eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes gweithredol").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Cyngor, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau â gweithrediadau dros y cyfnod busnes gweithredol.

- Ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:
- rydym o'r farn bod defnydd y Cyngor o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; ac
 - nid ydym wedi nodi, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor, nad oes ansicrwydd materol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol am y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

Adnabod ac ymateb i risgiau o gamddatganiad materol oherwydd twyll

Er mwyn nodi risgiau camddatganiad materol oherwydd twyll (“risgiau o dwyll”), aseswyd digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi’r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilio mewnol ac arolygu dogfennau polisi ynghylch polisiâu a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol a sianel y Grŵp ar gyfer “chwythu’r chwiban”, yn ogystal ag a ydynt yn gwybod am unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll.
- Darllen Cofnodion y Cyngor a’r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasodd anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfathrebu risgiau twyll a nodwyd drwy’r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Fel sy’n ofynnol gan safonau archwilio, a chan

ystyried pwysau posibl i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn cyflawni gweithdrefnau i fynd i’r afael â’r risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau a’r risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol. Ar yr archwiliad hwn ni wnaethom nodi risg o dwyll yn gysylltiedig â chydabod refeniw oherwydd y meini prawf cydnabod refeniw anghymhleth, sy’n cyfyngu ar y cyfle i drin refeniw drwy dwyll.

Ni wnaethom nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau gan gynnwys:

- Nodi cofnodion dyddlyfr i’w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu’r cofnodion a nodwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion dyddlyfr sy’n cynnwys geiriau allweddol penodol, cofnodion dyddlyfr anarferol mewn perthynas ag arian parod a benthyciadau a chyfnodolion materol a bostiwyd ar ôl dyddiad cau’r cyfrifylfr.

Adnabod risgiau o gamddatganiad materol ac ymateb iddynt oherwydd diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau

Gwnaethom nodi meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol o’n profiad masnachol cyffredinol ac o’r sector, a thrwy drafodaeth gyda’r Cyngor a rheolwyr eraill (fel sy’n ofynnol gan safonau archwilio), a thrafodwyd y polisiâu a’r gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gyda’r Cyngor a rheolwyr arall.

Gwnaethom gyfleu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd ar draws ein tîm gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a’r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio’n sylweddol.

Yn gyntaf, mae’r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy’n effeithio’n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (yn cynnwys deddfwriaeth elusennau cysylltiedig a deddfwriaeth addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Medr, deddfwriaeth trethiant a deddfwriaeth pensiynau. Aseswyd i ba raddau y cydymffurfir â’r cyfreithiau a’r rheoliadau hyn fel rhan o’n gweithdrefnau ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae’r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith faterol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, drwy osod dirwyon neu ymgyfreithiad neu’r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol.

Gwnaethom nodi’r meysydd canlynol fel y rhai sy’n fwyaf tebygol i gael effaith o’r fath: cydymffurfio â gofynion rheoleiddio addysg uwch Medr, gan gydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau’r Grŵp. Mae safonau archwilio yn cyfyngu’r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â’r cyfreithiau a’r rheoliadau hyn i holi’r cyfarwyddwyr a’r rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os ar gael. Felly, os na ddatgelir tor-reoliadau gweithredol i ni neu ei fod yn amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y toriad hwnnw.

Cyd-destun gallu’r archwiliad i ganfod twyll neu dorcyfraith neu reoliad

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw’r diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau oddi wrth y digwyddiadau a’r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw hi y byddai’r gweithdrefnau cynhenid gyfyngedig sy’n ofynnol gan y safonau archwilio yn eu canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod twyll, gan y gallai hynny gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi’u cynllunio i ganfod camddatganiadau materol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â’r holl gyfreithiau a rheoliadau.

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) yn gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blyneddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio neu unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio datganiadau ariannol, yn cael ei cham-ddatgan yn faterol

neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os:

- ar sail y gwaith hwnnw yn unig, ein bod wedi nodi camddatganiadau materol yn y wybodaeth arall; neu
- yn ein barn, mae'r wybodaeth a roddir ar dudalennau 8 i 26 (sy'n ffurfio Adroddiad Blyneddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw ffordd faterol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae 'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw digon o gofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn ei ddatganiad a nodir ar dudalen 33, mae'r Cyngor yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi barn gywir a theg; rheolaethau mewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r

Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu bod dim dewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fo un yn bodoli. Gall

camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu yn gyfun, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a waned ar sail y datganiadau ariannol. Darperir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Adroddiad ar Ofynion Cyfreithiol a Rheoleiddiol Eraill

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodir yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").

Trosglwyddwyd rheoleiddio sector Addysg Uwch Cymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Rheoli Ariannol a Thelerau ac Amodau Cyllid 2024/25 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn parhau i fod ar waith ar ddyddiad ein hadroddiad. O ystyried y trosglwyddiad hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC yn ein hadroddiad fel un sy'n cyfeirio at Medr hefyd.

Yn ein barn, ym mhob agwedd faterol:

- mae cyllid o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- cymhwyswyd incwm, lle y bo'n briodol, gan y Brifysgol yn unol â pharagraff 145 o God Rheoli Ariannol ("FMC") CCAUC;
- defnyddiwyd grantiau'r Cyngor Cyllido (yn cynnwys grantiau gan Medr) yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr; a
- bodlonwyd gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC.

Pwrpas Ein Gwaith Archwilio ac i Bwy y mae Ein Cyfrifoldebau'n Ddyledus

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Cyngor yn unig yn unol ag Adran 4 o Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaed ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni

eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac i ddim diben arall. Hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.

Rees Batley

dros ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn nhermau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

66 Queen Square

Bristol

BS1 4BE

Tachwedd 2025

The background of the slide is a light gray image. The top half shows a person's head and shoulders in profile, looking down at a laptop screen. The bottom half shows a stack of papers or documents, with one page clearly visible showing some text and a logo.

Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

Manylion Gweinyddol

Rhif Elusen	1149535
Rhif y Cwmni	RC000537
Prif Swyddfa	Campws Caerfyrddin, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP

Ymgynghorwyr Proffesiynol

Archwilydd Allanol	KPMG LLP	66 Queen Square, Bristol, BS1 4BE
Archwilydd Mewnol	Forvis Mazars LLP	90 Victoria Square, Bristol, BS1 6DP
Bancwyr	Barclays Bank Plc HSBC Plc Natwest Bank Plc	

Mae datganiadau ariannol cyfunol Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn cyfuno’r endidau a ganlyn:

Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
Coleg Prifysgol y Drindod Cyf
Coleg y Drindod Caerfyrddin
Eclectica Drindod Cyf
UWTSD Investments Limited
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Coleg Sir Gâr
Coleg Ceredigion
Mentrau Creadigol Cymru
UW Centre for Advance Batch Manufacture Limited
OSTC Trinity St David LLP (Menter ar y Cyd)
Canolfannau Arloesedd PCYDDS Cyfyngedig
Ysgol Fusnes Abertawe Cyfyngedig (Segur)
Canolfannau Arloesedd PCYDDS Cyf (Segur)
Welsh American Academy Enterprises Ltd (Segur)
The International Foundation for Interfaith and Intercultural Dialogue (Segur)

Yn ystod y flwyddyn diddymwyd Tidal Lagoon Academy Ltd ac Ymddiriedolaeth y Drindod Dewi Sant

Paratoi'r datganiadau ariannol cyfunol

Mae’r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 wedi’u paratoi yn unol â’r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu’r DU, gan gynnwys y Datganiad o Arfer Argymelledig – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019, y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol fel y nodir ar dudalen 37.

Sail paratoi

Mae’r datganiadau ariannol hyn wedi’u paratoi yn unol â’r Datganiad o Arfer Argymelledig (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 ac yn unol â Safonau Adrodd Ariannol (FRS102).

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol FRS102. Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â’r confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio mewn perthynas ag eiddo buddsoddi, buddsoddiadau asedau cyfredol ac offerynnau ariannol deilliadol lle cofnodir gwerth teg.

Sail cyfuno

Mae’r datganiadau ariannol cyfunol yn gynnwys y Brifysgol a’i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2025, sy’n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Mae trafodion o fewn endid yn cael eu dileu’n llawn wrth eu cyfuno.

Nid yw’r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad oes gan y Brifysgol reolaeth neu ddylanwad llywodraethol dros reoli polisi na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Rhoddir cyfrif am gwmnïau cysylltiedig â chyd-fentrau gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae’r rhiant-gwmni wedi’i gynnwys yn y datganiadau ariannol cyfuno ac fe’i hystyrir yn endid cymwys o dan FRS 102, paragraffau 1.8 i 1.12. Mae’r eithriadau canlynol sydd ar gael o dan FRS192 mewn perthynas â datgeliadau penodol ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi’u cymhwyso:

- Ni chynhwysir Datganiad Llif Arian rhiant-gwmni ar wahân gyda nodiadau cysylltiedig;
- Ni chynhwysir iawndal Personél Rheoli Allweddol yr eildro; a’r
- Datgeliad sy’n ofynnol gan FRS102.11 Offerynnau Ariannol Sylfaenol ac FRS102.12. Materion Offerynnau Ariannol eraill mewn perthynas ag offerynnau ariannol nad ydynt yn dod o fewn rheolau cyfrifyddu gwerth teg paragraff 36(4) o Atodlen 1.

Busnes Gweithredol

Nodir gweithgareddau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad a'i pherfformiad yn y dyfodol, yn y Datganiad Ariannol ar y Cyd. Cyflwynir sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau, ei llif arian, ei hylifedd a'i benthyciadau yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol y mae'r Brifysgol a'r Cyngor yn credu eu bod yn briodol am y rhesymau canlynol.

Am y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025, tyfodd incwm y Grŵp £7 miliwn, ac eithrio grantiau cyfalaf untro, er gwaethaf gostyngiad o £8.1 miliwn mewn Grantiau Cyfalaf. Tyfodd incwm y Brifysgol £4m ac eithrio'r gostyngiad hwn yn y grant cyfalaf, gydag incwm y Brifysgol o £132.0 miliwn (Grŵp £209.8) yn cael ei ystyried yn ailadroddadwy.

Gwelwyd y myfyrwyr cyntaf ar gampws newydd y Brifysgol yn Llundain ym mis Mehefin 2024, gan ddarparu'r sylfaen ar gyfer twf mewn ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith ehangu pellach yn ystod y flwyddyn yn darparu cyfleoedd incwm ychwanegol ar gyfer 2025/2026 a thu hwnt. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda'i phartneriaid i gynyddu lefel y myfyrwyr rhyngwladol o fewn ei phoblogaeth myfyrwyr a bydd yn elwa o gynnydd yn lefel ffioedd dysgu israddedig cartref o fis Medi 2025.

Fel y nodwyd ar dudalen 17 yn yr Adolygiad Ariannol ar y Cyd, mae'r Brifysgol wedi gwneud penderfyniadau rhagweithiol dros y 3 blynedd diwethaf i sicrhau bod ei model gweithredu yn gadarn yn yr amgylchedd AU heriol a sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor. Mae nodweddion craidd ffocws y rheolwyr yn parhau i fod yn gyson trwy'r flwyddyn gyfredol wrth i'r cynllun busnes gael ei weithredu:

- adolygu'r portffolio academiaidd i sicrhau bod ein cynnig yn ddeniadol, wedi'i gynllunio'n dda, wedi ei strwythuro'n briodol ac wedi'i leoli'n ddaearyddol i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer recriwtio, profiadau a chanlyniadau myfyrwyr;
- gwella ein marchnata a chynyddu ein siâr o farchnadoedd presennol a marchnadoedd sy'n datblygu gyda chynnig i ddenu mwy o fyfyrwyr i'n campysau yng Nghymru a thyfu gweithgarwch rhyngwladol.
- diffinio strwythurau sefydliadol o siâp, maint a dosbarthiad daearyddol priodol i gyflawni a rhedeg y Brifysgol yn effeithiol.
- optimeiddio seilwaith ac ôl troed ein campysau i gefnogi ystâd gynaliadwy effeithlon sy'n addas i'r diben i gyflawni ein gofynion addysgol a sefydliadol ac ymateb i ofynion newidiol ar ddefnydd.
- rheoli llif arian, gan gynnwys casglu derbynebau'n amserol gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfamodau banc;
- bod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r gostyngiadau mewn cyllid craidd gan Medr a Llywodraeth Cymru; ac
- ymateb i gyd-destun gwleidyddol newidiol Addysg Uwch yng Nghymru;

Wrth fynd i'r afael â'r sefyllfa ddiffyg ym mis Gorffennaf 2023, mae'r Brifysgol wedi gwneud nifer o benderfyniadau anodd ar draws pob maes gweithrediadau. Mae allbwn y penderfyniadau hyn wedi bwydo i mewn i berfformiad gwell y Brifysgol a'r Grŵp yn y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol, a bydd yn darparu sefydlogrwydd tymor hwy ar gyfer potensial cynhyrchu incwm y Grŵp a'r Brifysgol. Mae effaith y penderfyniadau hyn, ynghyd â'r gwelliannau gweithredol sy'n cael eu cymhwyso yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn arwain at gyllideb ar gyfer 2025/2026 gyda chynnydd mewn incwm ffioedd dysgu, cynnydd mewn gwarged gweithredu a chynhyrchu arian parod o £3.9 miliwn yn y Brifysgol. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon, mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn parhau i fod yn hyderus y bydd eu cyllidebau yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae sefyllfa cronfeydd arian parod y Grŵp a'r strwythur cyllido allanol ar gael ac yn ddigonol, hyd yn oed mewn senarios negyddol posibl, i ganiatáu i holl rwymedigaethau'r Grŵp a'r Brifysgol gael eu bodloni fel y dônt yn ddyledus am gyfnod o 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol.

Mae'r senarios negyddol a gymhwysir yn ystyried gostyngiad mewn incwm ffioedd dysgu, cynnydd mewn gwariant gweithredu a gorvariant mewn gwariant cyfalaf. Er eu bod yn ymddangos yn bosibl i'r Brifysgol, mae'r perfformiad yn y flwyddyn hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon yn awgrymu bod yr agweddau negyddol posibl yn annhebygol. Mae'r profion o ran y senarios negyddol yn rhoi hyder pellach yng ngallu'r Grŵp a'r Brifysgol i reoli unrhyw ansicrwydd sy'n codi yn y 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r rhagolygon yn cael eu gwneud gyda rhagdybiaeth sylfaenol o gefnogaeth barhaus gan ei bancwyr wrth ddarparu ei chyfleuster benthyciad tymor. Ar 31 Gorffennaf 2025, cwblhaodd y Brifysgol Gyfleuster Credyd Cylchol gyda HSBC a fydd yn darparu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer ei gweithgarwch gweithredol a buddsoddi dros y cyfnod 5 mlynedd. Yn rhan o gwblhau'r cyfleuster, aliniwyd cyfnod y cyfleuster benthyciad tymor presennol â'r RCF gyda'r ddau gyfleuster yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2034. Yn rhan o'r adnewyddu, cytunodd y Brifysgol ar gyfamodau wedi'u diweddaru ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni rhwymedigaethau'r cyfamod diwygiedig trwy gydol y cyfnod busnes gweithredol, hyd yn oed wrth ystyried y profion straen a sensitifrwydd.

Mae cyfamodau bancio'r Grŵp i HSBS yn cael eu profi'n chwarterol ar 31 Hydref, 31 Ionawr, 31 Ebrill a 31 Gorffennaf gyda'r cyfnod profi cyntaf ar 31 Ionawr 2026. Mae'r rhagolygon y cyfeirir atynt uchod yn dangos y bydd y Grŵp a'r Brifysgol yn cydymffurfio â'u cyfamodau yn ystod y cyfnod asesu ar yr achos sylfaenol a negyddol gyda senarios achos lliniaru.

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd gan y Brifysgol a'i his-gwmnïau ddigon o arian i barhau i gwrdd â'u rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn barhaus ar sail busnes gweithredol.

Cydnabod Incwm

Caiiff incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i’r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr pan gyflenwir y nwyddau neu'r gwasanaethau i'r cwsmeriaid allanol, neu os yw telerau'r contract wedi'u bodloni.

Caiiff incwm ffioedd ei ddatgan yn gros o unrhyw wariant nad yw’n ddisgownt a’i gredydu i’r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod y mae myfyrwyr yn astudio. Lle mae swm y ffioedd dysgu yn cael ei gostwng, drwy ddisgownt ar gyfer taliad prydlon, dangosir yr incwm derbyniadwy yn net o’r disgownt. Mae bwrsariaethau ac ysgoloriaethau’n cael eu hystyried yn wariant gros ac nid ydynt yn cael eu didynnu o incwm.

Caiiff incwm o ddarpariaeth llety ei gredydu i’r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr dros hyd contract y llety. Mae contractau llety yn cael eu dosbarthu bob blwyddyn. Mae bondiau a gedwir ar lety’n cael eu cofnodi ar y Fantolen Gyfunol a Mantolen y Brifysgol a chânt eu had-dalu i fyfyrwyr ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd ar yr amod bod telerau'r contract llety wedi'u cynnal. Caiiff unrhyw fond a gedwir gan y Brifysgol ei gredydu i’r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr ar ddiwedd y cyfnod llety fel eitem incwm.

Caiiff incwm buddsoddi ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr ar sail swm derbyniadwy.

Nid yw cyllid y mae’r Brifysgol yn ei dderbyn a’i alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido wedi’i gynnwys yn incwm a gwariant y Brifysgol lle nad oes fawr ddim risg na budd economaidd i’r Brifysgol mewn perthynas â’r trafodiad.

Cyllid Grant

Mae grantiau’r llywodraeth gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido, grantiau ymchwil o ffynonellau’r llywodraeth, a grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod fel incwm pan fydd gan y Brifysgol hawl i’r incwm a phan fydd yr amodau sy’n gysylltiedig â pherfformiad wedi’u bodloni.

Mae incwm a dderbynnir ymlaen llaw cyn cyflawni amodau’n gysylltiedig â pherfformiad yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr wrth i’r amodau gael eu cyflawni.

Mae contractau ymchwil masnachol yn cael eu cyfrif yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod. Mae grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir o ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil o ffynonellau anllywodraethol, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fydd yr amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni.

Mae incwm a dderbynnir ymlaen llaw cyn cyflawni amodau’n gysylltiedig â pherfformiad yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr wrth i’r amodau gael eu cyflawni.

Rhoddion a Gwaddolion

Mae trafodion digyfnewid heb amodau cysylltiedig â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion. Caiiff rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau a osodir gan y rhoddwyr eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i’r cyllid. Cedwir yr incwm o fewn y gronfa gyfyngedig hyd nes y caiff ei ddefnyddio yn unol â’r cyfryw gyfyngiadau pryd y caiff yr incwm ei ryddhau drwy drosglwyddiad i gronfeydd cyffredinol.

Caiiff rhoddion heb unrhyw gyfyngiadau eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i’r cyllid. Cofnodir incwm buddsoddi ac arbrisiant o waddol mewn incwm yn y flwyddyn y mae'n codi ac fel naill ai incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â'r telerau neu’r cyfyngiadau eraill a gymhwysir i'r gronfa waddol unigol.

- Mae pedwar prif fath o roddion a gwaddolion o fewn cronfeydd wrth gefn:
- 1. Rhoddion cyfyngedig – mae’r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid defnyddio rhodd at ddiben penodol.
 - 2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
 - 3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw prynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
 - 4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w chymhwyso at amcan penodol.

Grantiau Cyfalaf

Cofnodir grantiau cyfalaf mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy’n gysylltiedig â pherfformiad.

Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeol

Mae pum prif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol, y mae un o’r cynlluniau hyn, Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), ar agor i aelodau newydd. Mae’r pedwar arall, y Cynllun Pensiwn Athrawon; dau gynllun awdurdod lleol (Abertawe a Dyfed) a Chynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan ar gau i aelodau newydd o’r Brifysgol. Mae cynlluniau’r awdurdodau lleol ar gyfer Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn parhau i fod yn agored i aelodau newydd. Mae’r cynlluniau yn gynlluniau buddion diffiniedig sy’n cael eu hariannu’n allanol. Mae pob cronfa yn cael eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol â chymwysterau proffesiynol.

Mae cynllun pensiwn yr USS a’r cynllun Pensiwn Athrawon yn gynlluniau aml-gyflogwr ac nid yw’n bosibl nodi’r asedau a’r rhwymedigaethau sy’n berthnasol i aelodau’r Brifysgol oherwydd natur gydfuddiannol y cynlluniau, ac felly cyfrifir y cynlluniau fel cynlluniau buddion ymddeol gyda chyfraniadau wedi’u diffinio. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i ariannu diffygion yn y gorffennol yng nghynllun yr USS.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae’r cwmni’n talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau pellach. Mae rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i gynlluniau pensiwn gyda chyfraniadau wedi’u diffinio yn cael eu cydnabod fel cost yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnodau y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau.

Cynlluniau Aml-gyflogwr

Pan na all y Sefydliad nodi ei gyfran o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol mewn cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae’n cyfrifo fel pe bai’r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Pan fo’r Sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o’r fath sy’n pennu sut y bydd y Sefydliad yn cyfrannu at gynllun adfer diffyg, mae’r Sefydliad yn cydnabod ei rwymedigaeth dros y cyfraniadau sy’n daladwy sy’n deillio o’r cytundeb, i’r graddau y maent yn ymwneud â’r diffyg, a chaiff y draul o ganlyniad i hynny ei chydnabod fel gwariant.

Cynllun Buddion Diffiniedig

Mae cynlluniau buddion diffiniedig yn gynlluniau buddion ôl-gyflogaeth ac eithrio cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. O dan gynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu’r buddion y cytunwyd arnynt i gyflogeion presennol a chyn-weithwyr, ac mae’r risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na’r disgwyl) a’r risg buddsoddi (y bydd adenillon ar asedau a neilltuwyd i ariannu’r buddion yn wahanol i’r disgwyliadau) yn cael eu dwyn, yn eu hanfod, gan y Brifysgol. Dylai’r Grŵp gydnabod rhwymedigaeth am ei ymrwymïadau o dan gynlluniau buddion diffiniedig net asedau’r cynllun. Mae’r rhwymedigaeth hon am fuddion diffiniedig net yn cael ei mesur fel amcangyfrif o swm y buddion y mae cyflogeion wedi’i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod cyfredol ac mewn cyfnodau blaenorol, wedi’i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg asedau’r cynllun (ar bris bidio). Mae’r cyfrifiad yn cael ei wneud gan actiwari cymwysedig gan ddefnyddio’r dull rhagamcanu unedau credyd. Lle bo’r cyfrifiad yn arwain at ased net, mae’r gydnabyddiaeth o’r ased yn gyfyngedig i’r graddau y gall y Brifysgol adennill y gwarged naill ai drwy gyfraniadau gostyngol yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o’r cynllun.

Buddion Cyflogaeth

Mae buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau digolledol yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae’r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i’r Brifysgol. Mae unrhyw fuddion nas defnyddiwyd yn cael eu cronni a’u mesur fel y swm ychwanegol y mae’r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl nas defnyddiwyd.

Prydlesi Cyllidol

Mae prydlesi lle mae’r Brifysgol yn ysgwyddo yn eu hanfod yr holl risgiau a’r gwobrau sy’n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased o brydles yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllidol. Mae asedau ar brydles a gafodd eu caffael drwy brydles gyllidol a rhwymedigaethau’r prydlesi hynny’n cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar swm sy’n hafal â’r isaf o blith eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf ar ddechrau’r brydles.

Caiff y taliadau prydles isaf eu dosrannu rhwng y tâl cyllid a’r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy’n ddyledus. Pennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod oes y brydles er mwyn rhoi cyfradd gyfnodol gyson o log ar y balans sy’n weddill o’r rhwymedigaeth.

Prydlesi Gweithredu

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae unrhyw breimiymau neu gymhellion prydles yn cael eu lledaenu dros y cyfnod prydlesu lleiaf.

Arian Tramor

Yr arian cyfred gweithredol yw £ sterling. Mae trafodion mewn arian tramor yn cael eu trosi i £ sterling ar y gyfradd cyfnewid tramor sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu trosi i’r arian gweithredol ar y gyfradd gyfnewid tramor sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid tramor sy’n codi wrth drosi eu cydnabod fel Gwarged neu Ddiffyg. Mae asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor yn cael eu trosi gan ddefnyddio’r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a rhwymedigaethau anariannol a ddynodir mewn arian tramor sy’n cael eu datgan ar werth teg yn cael eu hail drosi i’r arian swyddogaethol ar gyfraddau cyfnewid tramor sydd mewn grym ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

Asedau Sefydlog

Nodir asedau sefydlog ar gost/cost dybiedig llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mae rhai eitemau o asedau sefydlog sydd wedi’u hailbrizio i werth teg ar y dyddiad trosglwyddo i SORP AB AU 2019 neu cyn hynny, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi’i ailbrizio ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw. Lle mae gan rannau o ased sefydlog oes ddefnyddiol wahanol, cânt eu cyfrif fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog.

Tir ac Adeiladau

Mae costau mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl prynu neu adeiladu cychwynnol, a chyn prisio, yn cael eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio gan yr ystyrir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Adeiladau academiaidd	50 mlynedd
Llety	30 mlynedd
Labordai a darlithfeydd	30 mlynedd
Adnewyddiadau	20 mlynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.
Ni chodir dibrisiant ar asedau yn ystod y cyfnod adeiladu.

Offer

Mae offer, gan gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na de-minimus o £5,000 fesul eitem unigol neu grŵp o eitemau yn cael ei ddiddymu yn y flwyddyn gaffael. Mae pob offer arall yn cael ei gyfalafu.
Mae offer wedi’i gyfalafu yn cael ei ddatgan ar gost a’i ddibrisio dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Offer Cyfrifiadurol	3 blynedd neu dros gyfnod y brydles os yw’n wahanol
Offer a brynwyd ar gyfer prosiectau ymchwil penodol	3 blynedd
Offer arall	3 blynedd
Cerbydau	4 blynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael
Mae dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Costau Benthycu

Mae costau benthycu y gellir eu priodoli’n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu ased cymwys yn cael eu cyfalafu.

Asedau Treftadaeth

Mae gweithiau celf ac arteffactau gwerthfawr eraill gwerth dros £25,000 wedi'u cyfalafu a'u cydnabod ar gost neu werth y caffaeliad, lle mae'n rhesymol cael y cyfryw gost neu brisiad. Cynhwysir Gweithiau Celf ar gostau a dynnwyd o 1 Ebrill 1981 neu ailbrisiad dilynol. Roedd y prisiad diweddaraf o asedau treftadaeth ar 31 Gorffennaf 2014, a gynhaliwyd at ddibenion yswiriant. Roedd y prisiad hwn yn dangos bod y gwerth wedi cynyddu, ond ni chydabuwyd unrhyw enillion at ddibenion cyfrifyddu.

Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu hoes economaidd hir a gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiant yn sylweddol.

Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw tir ac adeiladau a ddelir ar gyfer incwm rhent neu arbrisant cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur i ddechrau ar gost ac yna ar werth teg gyda symudiadau yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio ond mae'n cael ei ailbrizio neu ei adolygu'n flynyddol yn unol ag amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae'r adolygiad o werth teg yr eiddo buddsoddi yn cael ei gynnal gan Savills.

Buddsoddiadau

Cedwir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio llai amhariad.

Mae buddsoddiadau mewn endidau, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau a reolir ar y cyd yn cael eu cario ar gost llai amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Delir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg gyda symudiadau yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

Stoc

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o blith cost a gwerth gwireddadwy net. Mae'r gost yn cynrychioli pris anfoneb y stoc.

Offerynnau Ariannol:

- Dyledwyr/credydwyr masnach ac eraill**

Mae dyledwyr a chredydwyr masnach ac eraill yn cael eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodyn net o gostau trafodion priodoladwy. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol cânt eu mesur ar gostau amorteiddiedig llai unrhyw golledion amhariad yn achos dyledwyr masnach.
- Benthyciadau sy’n dwyn llog**

Mae benthyciadau sy’n dwyn llog ac eithrio benthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi’u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff benthyciadau sy’n dwyn llog eu datgan ar gost wedi’i hamorteiddio gan ddefnyddio’r dull llog effeithiol, llai unrhyw golledion amhariad.

Mae benthyciadau consesiynol yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar y swm a dderbyniwyd neu a dalwyd ac yna'n cael eu mesur ar gost ynghyd ag unrhyw log cronedig sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy.
- Arian parod a chyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae blaendaliadau yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb. Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, tymor byr y gellir eu trosi’n hawdd i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau wrth gefn

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgowntio’r llif arian disgwylledig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy’n adlewyrchu risgiau penodol i’r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy’n rhoi rhwymedigaeth bosibl i’r Brifysgol y bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy’n rhoi ased tebygol i’r Brifysgol y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond yn cael eu datgelu yn y nodiadau.

Cyfrifo ar gyfer cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiedig

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfrif am ei chyfran o gyd-fentrau a chwmnïau cysylltiedig gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfrif am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd o fewn y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr.

Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen o fewn ystyr Paragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 ac yn unol â hynny, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol wedi'i heithrio rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpesir gan adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW anadferadwy ar fewnbynau wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath. Mae unrhyw TAW anadferadwy a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Mae nifer o is-gwmnïau'r Brifysgol yn atebol i Dreth Gorfforaeth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol arall. Darperir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau amseru sy'n arwain at rwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth, ar ddyddiad yn y dyfodol, ar gyfraddau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol pan fyddant yn cael eu gwerthu ar sail cyfraddau a chyfraith gyfredol. Mae gwahaniaethau amseru yn deillio o gynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiannau trethiant mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent wedi'u cynnwys mewn datganiadau ariannol. Cydnabyddir asedau treth ohiriedig dim ond i'r graddau y mae'n debygol y byddant yn cael eu hadennill yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol. Nid yw asedau treth ohiriedig a rhwymedigaethau'n cael eu diystyru.

Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dosbarthu'n gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu cadw fel cronfa sydd â chyfyngiad parhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol ac felly mae'r Brifysgol wedi'i chyfyngu wrth ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifo – ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrifo

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'r rheolwyr wedi arfer barn yn y meysydd canlynol:

Rhagdybiaethau cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae gan y Brifysgol nifer o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig. Cyfrifir prisiad y rhwymedigaethau ar bob cynllun buddion diffiniedig gan ddefnyddio model ariannol a demograffig i gyflwyno senario sengl o ystod eang o bosibiliadau. Mae'n anochel y bydd profiad gwirioneddol y cynlluniau yn wahanol i'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r model ariannol a demograffig. Gall y gwahaniaethau fod yn berthnasol oherwydd bod y prisiad yn sensitif iawn i'r rhagdybiaethau a wnaed dros gyfnod hir o amser.

Rhagdybiaethau cynllun pensiwn yr USS

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin fel arfer gyda chyflogwr sy'n noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac mae'n cynrychioli (yn nodweddiadol) gynllun ar gyfer y diwydiant cyfan fel Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS). Mae cyfrifo ar gyfer cynllun aml-gyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb gyda'r cynllun sy'n pennu sut y bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn arwain at gydabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) gyda'r gost o ganlyniad wedi'i chodi drwy'r cyfrif elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102.

Yn dilyn prisiad 2023, nid oes gan y Brifysgol unrhyw rwymedigaeth diffyg gydag USS ac nid yw'n gwneud unrhyw gyfraniadau diffyg i'r cynllun.

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR

		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Nodiadau	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Incwm					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	2	109,269	104,990	100,735	95,932
Grantiau cyrff cyllido	3	64,673	8,988	57,928	8,570
Grantiau a chontractau ymchwil	4	1,734	1,734	2,429	2,429
Incwm arall	5	32,771	15,706	39,533	27,342
Incwm buddsoddi	6	1,330	619	2,076	1,279
Cyfanswm incwm		209,777	132,037	202,701	135,552
Gwariant					
Costau staff	7	106,205	72,289	102,477	71,353
Symudiad ar Ddarpariaeth yr USS	7	-	-	(32,925)	(32,925)
Treuliau gweithredu eraill	9	89,145	48,458	87,504	52,653
Dibrisiant ac amhariadau	11	10,990	8,048	12,493	9,213
Llog a chostau ariannu eraill	8	1,742	2,039	2,556	3,011
Cyfanswm gwariant		208,082	131,104	172,105	103,305
Gwarged/(diffyg) cyn enillion/colledion eraill a'i chyfran o warged/(diffyg) gweithredol cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiedig.		1,695	933	30,596	32,247
Enillion ar waredu asedau sefydlog	13	(33)	(7)	1,408	1,403
Gostyngiad yng ngwerth teg eiddo buddsoddi		(3,833)	(3,723)	(655)	(565)
Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau		8	(4)	(758)	(746)
		(2,163)	(2,801)	30,591	32,339
Trethiant	10	1	-	(4)	-
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		(2,162)	(2,801)	30,587	32,339
Enillion/(colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	27	(3,288)	(1,925)	(2,679)	(1,915)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(5,450)	(4,726)	27,908	30,424
Cynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr gwaddol am y flwyddyn	22	2	6	15	19
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn		(5,452)	(4,732)	27,893	30,405
Gwarged am y flwyddyn i'w briodoli i'r					
Brifysgol		(2,060)	(2,801)	30,684	32,339
Buddiant anrheolaethol		(102)	-	(97)	-
		(2,162)	(2,801)	30,587	32,339
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn i'w briodoli i'r					
Brifysgol		(5,348)	(4,726)	28,005	30,424
Buddiant anrheolaethol		(102)	-	(97)	-
		(5,450)	(4,726)	27,908	30,424
Mae pob eitem o incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus					

Mae’r polisïau cysylltiedig ar dudalennau nodiadau 38 – 45 a nodiadau ar dudalennau 52 i 82 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.



Datganiad o Newidadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

DATGANIAD O NEWIDADAU YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN

Cyfunol

	Gwaddol	Anghyfyngedig	Cronfa Ailbrisio	Cyfanswm heb gynnwys buddiant anrheolaethol	Buddiant anrheolaethol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2023	10,120	80,806	23,967	114,893	(871)	114,022
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	15	30,669	-	30,684	(97)	30,587
Incwm cynhwysfawr arall		(2,679)	-	(2,679)	-	(2,679)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	15	27,990	-	28,005	(97)	27,908
Balans ar 31 Gorffennaf ac 1 Awst 2024	10,135	108,796	23,967	142,898	(968)	141,930
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	2	(2,062)	-	(2,060)	(102)	(2,164)
Incwm cynhwysfawr arall	-	(3,288)	-	(3,288)	-	(3,288)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	2	(5,350)	-	(5,348)	(102)	(5,450)
Balans ar 31 Gorffennaf 2025	10,137	103,445	23,967	137,550	(1,070)	136,480

Y Brifysgol

	Gwaddol	Anghyfyngedig	Cronfa Ailbrisio	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2023	9,664	32,615	14,454	56,733
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	19	32,320	-	32,339
Incwm cynhwysfawr arall		(1,915)	-	(1,915)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	19	30,405	-	30,424
Balans ar 31 Gorffennaf ac 1 Awst 2023	9,683	63,020	14,454	87,157
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	6	(2,807)	-	(2,801)
Incwm cynhwysfawr arall	-	(1,925)	-	(1,925)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	6	(4,732)	-	(4,726)
Balans ar 1 Awst 2024	9,689	58,288	14,454	82,431

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a Llif Arian

DATGANIAD O’R SEFYLLFA ARIANNOL A LLIF ARIAN

Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol

		Hyd at 31 Gorffennaf 2025		Hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Nodiadau	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
		£’000	£’000	£’000	£’000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau Sefydlog Diriaethol	11	166,008	123,656	165,346	122,361
Asedau Treftadaeth	12	6,241	6,205	6,241	6,205
Eiddo Buddsoddi	13	5,160	4,585	10,197	9,512
Buddsoddiadau	14	805	-	754	-
		178,214	134,446	182,538	138,078
Asedau Cyfredol					
Asedau a delir ar werth	11	-	-	-	-
Stoc	16	914	392	594	393
Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	17	38,770	45,451	34,039	41,099
Buddsoddiadau	18	356	339	1,641	1,625
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		17,835	2,064	20,394	2,033
		57,875	48,246	56,668	45,150
Llai: Credydwyr: symiau sy’n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	19	(69,872)	(72,158)	(66,885)	(66,772)
Asedau / rhwymedigaethau cyfredol net		(11,997)	(23,912)	(10,217)	(21,622)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		166,217	110,534	172,321	116,456
Credydwyr: symiau sy’n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	20	(28,216)	(27,795)	(29,155)	(28,834)
Darpariaethau					
Darpariaethau pensiwn	27	(547)	(46)	-	-
Darpariaethau eraill	21	(974)	(262)	(1,236)	(465)
Asedau net		136,480	82,431	141,930	87,157
Cronfeydd cyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant – cronfa waddol	22	10,137	9,689	10,135	9,683
Cronfeydd anghyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant – anghyfyngedig		103,446	58,288	108,796	63,020
Cronfa ailbrisio		23,967	14,454	23,967	14,454
		137,551	82,431	142,898	87,157
Buddiant anrheolaethol	25	(1,070)	-	(968)	-
Cyfanswm y Cronfeydd		136,480	82,431	141,930	87,157

Mae'r polisiâu cysylltiedig ar dudalennau nodiadau 38 – 45 a nodiadau ar dudalennau 52 i 82 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Corff Llywodraethol ar 26 Tachwedd 2025 ac fe’u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Emlyn Dole
Cadeirydd

Yr Athro Elwen Evans CB
Is-Ganghellor

Datganiad Llif Arian

	Nodiad au	Blwyddyn hyd at 31 Gorff. 2025	Blwyddyn hyd at 31 Gorff. 2024
		£’000	£’000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Diffyg am y flwyddyn		(2,164)	30,587
Addasu ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod			
Dibrisiant ac amhariadau	11	10,990	12,493
(Enillion)/Colledion mewn gwerth marchnad buddsoddiadau		11	(15)
(Enillion)/Colledion mewn eiddo buddsoddi	13	3,833	655
Colledion mewn ailbrisio da byw	11	-	-
Gostyngiad/(cynnydd) mewn stoc	16	(320)	(25)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr	17	(4,730)	3,168
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	19	1,575	(4,499)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau eraill	21	(262)	(690)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaeth pensiwn	27	(2,741)	(35,905)
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannol			
Incwm buddsoddiadau	6	(1,329)	(2,076)
Llog sy’n daladwy	8	2,629	2,156
Incwm gwaddol			-
Enillion ar werthu asedau sefydlog		33	(1,408)
Incwm o’r grant cyfalaf	5	(2,868)	(8,068)
Llif arian o weithgareddau gweithredu		1	-
Mewnllif arian parod net/(all-lif) o weithgareddau gweithredu		4,658	(3,627)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Enillion o werthu asedau diriaethol		1	2,684
Derbyniadau grant cyfalaf		2,868	-
Gwaredu buddsoddiad anghyfredol		1,274	4,353
Tynnu adneuon		-	-
Incwm buddsoddi		1,329	2,076
Taliadau a wnaed i gaffael asedau diriaethol	11	(9,750)	(24,817)
Gwrthdroi amhariad blaenorol	11	-	(2,628)
Taliadau a wnaed i brynu eiddo buddsoddi	13	(244)	(2,906)
		(4,522)	(21,238)
Llif arian o weithgareddau ariannol			
Llog a dalwyd		(2,738)	(2,124)
Elfen llog o brydles cyllid a thaliadau consesiwn gwasanaeth		(116)	(77)
Gwaddolion newydd		-	-
Taliadau gwaddolion		-	-
Tynnu lawr credyd cylchol		7,000	-
Benthyciad ansefydlog newydd		1,340	-
Benthyciadau sefydlog newydd (prydlesi cyllid)		58	-
Ad-daliadau symiau a fenthycwyd		(2,000)	(2,000)
		(782)	(823)
Elfen gyfalaf o brydles cyllid a thaliadau consesiwn gwasanaeth		2,762	(5,024)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		2,897	(29,888)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau’r flwyddyn		14,938	44,826
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		17,835	14,938

The background of the slide features a faded, light-colored photograph of a group of people. In the upper portion, two men are smiling and looking towards the camera. Below them, a group of people is gathered around a large, white ceremonial check. One person is holding the check, while others are looking on. The overall scene suggests a celebratory or successful event, possibly a fundraising or award ceremony.

Nodiadau i'r Cyfrifon

NODIADAU I'R CYFRIFON

2. Ffioedd dysgu a chontractau addysg

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Myfyrwyr cartref ac UE llawn amser	90,842	87,530	82,160	78,606
Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser	10,887	10,887	9,652	9,652
Myfyrwyr rhan amser	6,291	6,573	7,674	7,674
Contractau addysg	1,249	-	1,249	-
	109,269	104,990	100,735	95,932

3. Grantiau gan gyrrff cyllido

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grant rheolaidd				
- Grantiau dysgu Medr	2,495	2,495	3,339	3,339
- Grantiau Ymchwil Medr	2,820	2,820	3,441	3,441
- Llywodraeth Cymru	53,950	-	47,518	-
Grantiau penodol				
- Grantiau llesiant myfyrwyr Medr	364	364	492	492
- Grantiau Cyfalaf Medr	2,868	2,868	952	952
- Grantiau eraill Medr	441	441	346	346
- Grantiau Llywodraeth Cymru	1,735	-	1,840	-
	64,673	8,988	57,928	8,570

4. Grantiau ymchwil a chontractau

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cynghorau ymchwil	19	19	11	11
Elusennau ymchwil	23	23	23	23
Arall	1,692	1,692	2,395	2,395
	1,734	1,734	2,429	2,429

5. Incwm arall

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llety, arlwyio a chynadleddau	5,514	4,103	4,945	3,607
Grantiau refeniw eraill	11,533	3,459	11,536	6,038
Grantiau cyfalaf eraill	-	-	8,068	8,068
Gweithgareddau creu incwm eraill	8,475	6,003	9,535	6,715
Incwm arall	7,249	2,141	5,449	2,914
	32,771	15,706	39,533	27,342

6. Incwm Buddsoddi

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm buddsoddi ar waddolion	615	615	1,217	1,217
Incwm buddsoddi arall	715	4	859	62
Cynnydd yng ngwerth teg deilliadau	-	-	-	-
	1,330	619	2,076	1,279

NODIADAU I'R CYFRIFON

7. Costau Staff

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
Cyflogau	81,719	55,183	79,916	55,852
Costau nawdd cymdeithasol	8,487	5,733	7,870	5,750
Symudiad ar ddarpariaeth USS	-	-	(32,925)	(32,925)
Costau pensiwn eraill	14,178	9,599	14,232	9,348
Costau ailstrwythuro	1,821	1,774	459	403
	106,205	72,289	69,552	38,428

Roedd y dyfarniad cyflog a negodwyd gan UCEA, i'w gymhwyso o Awst 2024, yn gyfartaledd o 2.5% ar gyfer staff ar y golofn gyflog genedlaethol. Roedd y dyfarniad cyflog yn rhoi cynnydd o 5.7% i staff ar bwyntiau isaf y golofn gyflog a 2.5% i staff ar bwynt 38 neu uwchlaw. Gohiriwyd y dyfarniad cyflog a'i weithredu o fis Mehefin 2025.

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024		
	Cyfanswm £'000	Yr Athro Medwin Hughes £'000	Yr Athro Elwen Evans CB £'000	Cyfanswm £'000
Enillion yr Is-Ganghellor				
- Cyflog	262	44	239	283
Cyfraniadau pensiwn i USS	38	5	41	46
	300	49	280	329

Ar 1 Medi 2023 cymerodd yr Athro Elwen Evans CB le'r Athro Medwin Hughes CBE, DL fel Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru a bu yn y rôl am weddill y cyfnod adrodd. Roedd yr Athro Medwin Hughes CBE, DL yn y rôl am y cyfnod 1 Awst 2023 – 31 Awst 2023. Mae'r gwerthoedd datganedig ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 felly'n ymwneud ag 1 mis i'r Athro Medwin Hughes CBE, DL ac 11 mis i'r Athro Elwen Evans CB.

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024
	£'000	£'000
Tâl personél rheoli allweddol	1,863	2,347
	Nifer	Nifer
Personél rheoli allweddol	11	16

Nid yw hyn yn cynnwys cost personél rheoli allweddol a gyflogir gan Brifysgol Cymru, ond sy'n gweithio ar draws y ddau sefydliad. Mae'r costau hyn gwerth cyfanswm o £55k (2020: £55k) wedi'u cynnwys mewn treuliau gweithredu eraill wrth iddynt gael eu hailgodi drwy anfoneb gan Brifysgol Cymru.

Taliadau staff eraill ar gyflog uwch, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr (yn amodol ar gyfarwyddyd cyfrifon perthnasol Medr) a ddangosir cyn unrhyw aberthu cyflog:

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024
	Nifer	Nifer
£100,000 i £104,999	2	2
£105,000 i £109,999	2	1
£110,000 i £114,999	2	-
£115,000 i £119,999	2	1
£120,000 i £124,999	2	2
£125,000 i £129,999	1	1
£130,000 i £134,999	-	-
£135,000 i £139,999	-	-
£140,000 i £144,999	-	-
£145,000 i £149,999	-	-
£150,000 i £154,999	1	-
£155,000 i £159,999	-	-
£160,000 i £164,999	-	2
£165,000 i £169,999	2	-
£170,000 i £174,999	-	-
£175,000 i £179,999	-	2
£180,000 i £184,999	2	-
£185,000 i £189,999	-	-
£190,000 i £194,999	-	-
£195,000 i £199,999	-	-
£200,000 i £204,999	-	1
£205,000 i £209,999	-	-
£210,000 i £214,999	-	-
£215,000 i £219,999	-	-
£220,000 i £224,999	-	-
£225,000 i £229,999	-	-
£230,000 i £234,999	-	-
£235,000 i £239,999	-	-
£240,000 i £244,999	-	-
£245,000 i £249,999	-	-
£250,000 i £254,999	-	-
£255,000 i £259,999	-	-
£260,000 i £264,999	1	-
	17	12

NODIADAU I’R CYFRIFON

Yn ogystal â hyn, fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, gweithredodd y Brifysgol y cynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, bwysoliad Llundain. Lle bo'n gymwys, dyfarnwyd codiadau datblygiad cyflog i staff yn y modd arferol.

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 No.	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 No.
Niferoedd staff cyfartalog fesul:		
- Adrannau Academaidd	887	868
- Adrannau nad ydynt yn anacademaidd	1,233	1,241
	2,120	2,109

Costau Ailstrwythuro

Mae’r Brifysgol yn rhoi cyfrif am gostau ailstrwythuro yn y cyfnod y mae’r costau’n digwydd, lle mae cynllun ailstrwythuro wedi’i gyfleu ond heb ei gwblhau’n llawn ar ddyddiad y Fantolen, ac mae symiau sy’n ddyledus yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ac o fewn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd y cynllun ei gyfleu.

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£’000	£’000	£’000	£’000
Talwyd i weithwyr ar derfynu cyflogaeth	1,821	1,774	459	403

Talwyd iawndal i gyfanswm o 2 o staff ar gyflogau uwch yn ystod y flwyddyn (2024: 4) ar gyfanswm cost o £155k (2024: £373). Roedd hyn yn cynnwys iawndal am golli swydd a Thaliad yn lle Rhybudd (PILON). Mae’r datgeliad band cyflog yn cynnwys gweithwyr lle mae hyn yn berthnasol. Ar 31 Gorffennaf 2025, nifer y gweithwyr â thal sy’n fwy na £100,000 yw 15 (31 Gorffennaf 2024: 9).

Ymddiriedolwyr

Aelodau Cyngor y Brifysgol yw’r ymddiriedolwyr at ddibenion y gyfraith elusennol. Rhestrir yr ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, a hyd at ddyddiad llofnodi’r datganiadau ariannol hyn ar dudalen 5.

Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol a chyfansoddiadau'r Cyngor, sy'n dod o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodion sy’n ymwneud â sefydliadau y gallai fod gan aelod o’r Cyngor fuddiant ynddynt hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a gweithdrefnau caffael arferol. Heblaw am y treuliau a dalwyd yn y flwyddyn y cyfeirir ati isod, nid oedd unrhyw drafodion yn ystod y flwyddyn ag unrhyw aelodau.

Nid oes unrhyw aelod o’r Cyngor wedi derbyn unrhyw dâl/taliadau wedi’u hepgor gan y grŵp yn ystod y flwyddyn (2023: £dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran 23 o aelodau cyngor oedd £12K (2024: £12K i 23 o aelodau cyngor). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliaeth yr eir iddynt wrth fynychu cyfarfodydd Pwyllgorau’r Cyngor a digwyddiadau yn rhinwedd eu swydd.

Datganiad Tâl yr Is-Ganghellor

Cymhareb cyflog blynyddol yr Is-Ganghellor o’i gymharu â chyfartaledd canolrifol y Brifysgol yw 6.29:1. Cymhareb cyfanswm tâl yr Is-Ganghellor newydd o'i gymharu â chyfartaledd canolrifol y Brifysgol yw 6.16:1.

Nododd y Pwyllgor Taliadau gyflog cyfredol yr Is-Ganghellor mewn perthynas â'r cyfartaledd yng ngrŵp cymharydd Medr a nododd hefyd adroddiad Cadeirydd y Cyngor ar gyfraniad yr Is-Ganghellor a'r cyflawniadau allweddol (er eglurder, nid yw'r Brifysgol yn gweithredu cynllun cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad).

Penderfynodd y Pwyllgor Taliadau adlewyrchu dyfarniad cyflog y sector ar gyfer Uwch Swyddogion o fewn ei gwmpas gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Yn unol â hynny, dyfarnwyd cynnydd o 2.5% a gohiriwyd ei weithredu tan fis Mehefin 2025, a oedd hefyd yn adlewyrchu’r dull y cytunwyd arno’n lleol ar gyfer yr holl staff.

Mae’r Is-Ganghellor hefyd yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru. Codir 20% o enillion yr Is-Ganghellor ar Brifysgol Cymru. Mae’r enillion a’r cymarebau a ddangosir isod yn cynrychioli 100% o gyflog yr Is-Ganghellor.

Mae gan yr Is-Ganghellor ystod sylweddol o gyfrifoldeb sy’n rhychwantu Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae hyn yn cynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Cymru, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. O fewn PCYDDS, mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am Birmingham a Llundain. Datgelir 100% o enillion yr Is-Ganghellor yn y cyfrifon hyn ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw godiadau ar Brifysgol Cymru.

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am sefydlu Pwyllgor Sefydlog y Cyngor, a elwir yn Bwyllgor Taliadau, i bennu taliadau teg a phriodol i’r Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pro Is-Gangellorion a Chlerc y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gyfrifol yn flynyddol am adolygu a phennu cyflogau, telerau ac amodau a, lle bo'n briodol, amodau diswyddo’r deiliaid swyddi uwch uchod. Cyhoeddir y cylch gorchwyl ar wefan y Brifysgol gan sicrhau bod y rhain ar gael i staff, myfyrwyr a’r holl randdeiliaid mewn modd agored a thryloyw: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth> Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys aelod staff o’r Cyngor ac aelod myfyrwyr o’r Cyngor. Nid yw’r Is-Ganghellor yn aelod.

Mae’r Pwyllgor Taliadau yn cadw at God Taliadau Uwch Staff Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan y CUC. Mae ei drafodaethau’n ystyried y cyd-destun y mae’r sefydliad yn gweithredu ynddo. Mae’n ystyried y gwerth a ddarperir gan unigolyn sy’n gweithredu o fewn rôl sy’n seiliedig ar elfennau perthnasol o gyd-destun PCYDDS. Mae'r Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gymharol briodol gan Brifysgolion eraill i lywio ei benderfyniadau gan gynnwys cyfradd cynnydd blynyddol tâl cyfartalog yr holl staff eraill. Mae hefyd yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac adroddiad ar gwynion a wnaed i'r Brifysgol gan fyfyrwyr, staff a phersonau allanol. Mae’r Pwyllgor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl argymhellion yn deg ac yn ystyried budd y sefydliad, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid gan gynnwys cymuned y myfyrwyr a’r gymdeithas ehangach. Mae diogelu arian cyhoeddus yn rhan o’i drafodaethau hefyd.

Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau sy’n gyfrifol am gyflwyno penderfyniadau’r Pwyllgor Taliadau i Gyngor y Brifysgol.

NODIADAU I'R CYFRIFON

8. Llog a chostau cyllid eraill

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Prydlesi cyllid	116	54	77	36
Llog ar fenthyciadau	2,262	2,261	2,124	2,124
Tâl net ar gynlluniau pensiwn	(1,004)	(374)	(58)	438
Arall	368	368	413	413
	1,742	2,309	2,556	3,011

9. Dadansoddiad o dreuliau gweithredu eraill yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant academiaidd a chysylltiedig	42,206	29,268	45,893	27,896
Gwasanaethau gweinyddu a chanolog	22,773	10,122	22,296	14,284
Safleoedd	14,333	6,009	10,031	6,953
Llety, arlwyo a chynadleddau	1,927	690	1,922	866
Treuliau eraill	7,906	2,369	7,362	2,654
	89,145	48,458	87,504	52,653

Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Tâl yr archwilydd allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio				
- Y datganiadau ariannol hyn	135	135	122	122
- Datganiadau ariannol eraill y grŵp	126	-	116	-
Tâl yr archwilydd allan mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio:				
- Gwasanaethau sicrwydd cysylltiedig ag archwilio	32	32	29	23
- Gwasanaethau cydymffurfio â threthi			-	-
- Gwasanaethau cyngori ar drethi	12		12	-

10. Trethiant

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cydnabyddiaeth yn y datganiad o incwm cynhwysfawr				
Cost treth gyfredol	(3)	-	(9)	-
Addasiad y flwyddyn flaenorol	4	-	5	-
Treth ohiriedig				
Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	-	-	-	-
Gostyngiad yn y gyfradd dreth	-	-	-	-
Cydnabyddiaeth o golledion treth nas cydnabuwyd o'r blaen	-	-	-	-
Treuliau treth gohiriedig	-	-	-	-
Cyfanswm costau treth	1	-	(4)	-

Ffactorau sy'n effeithio ar gyfanswm y tâl treth am y cyfnod cyfredol

Mae'r dreth a aseswyd ar gyfer y cyfnod yn ymwneud ag Eclectica Drindod Limited, Mentrau Creadigol Cymru, UWTSO Investments Limited a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae'n is na chyfradd safonol treth gorfforaeth yn y DU o 25% (2024: 25%). Eglurir y gwahaniaethau fel a ganlyn:

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
(Diffyg)/Gwarged cyn treth	(2,625)	(2,801)	30,591	32,339
Symiau nad ydynt yn ddarostyngedig i dreth	1,573	2,801	(32,130)	(32,339)
Elw Trethadwy	(1,052)	-	(1,539)	-
Treth ar 25% (2024: 25%)	(263)	-	(385)	-
Effeithiau:				
- Gwariant na chaniateir	260	-	376	-
- Addasiad y flwyddyn flaenorol	4	-	5	-
Cyfanswm treth a godwyd yn ystod y flwyddyn	1	-	(4)	-

Y gyfradd safonol o dreth a gymhwysir i elw a adroddir yw 25% (2024: 25%).

Cafodd cynnydd yng nghyfradd treth gorfforaeth y DU o 19% i 25% (daeth i rym ar 1 Ebrill 2023) ei weithredu'n sylweddol ar 24 Mai 2021.

NODIADAU I'R CYFRIFON

11. Asedau Sefydlog Diriaethol (Cyfunol)

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau prydles £'000	Offer, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
Cost neu brisiad cyfunol							
Ar 1 Awst 2024	208,374	97	18,532	41,583	980	500	270,066
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	4,625	3,722	-	1,861	-	27	10,235
Trosglwyddiadau	91	(97)	-	6	-	-	-
Trosglwyddo o eiddo buddsoddi	1,448	-	-	-	-	-	1,448
Gwarediadau	-	-	-	(1,653)	(41)	-	(1,694)
Gwrthdroi amhariad blaenorol	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2025	214,538	3,722	18,532	41,797	939	527	280,055
Dibrisiant cronedig							
Ar 1 Awst 2024	64,919	-	5,485	33,953	364	-	104,721
Tâl am y flwyddyn	5,077	-	365	5,359	188	-	10,989
Gwarediadau	-	-	-	(1,629)	(34)	-	(1,663)
Ar 31 Gorffennaf 2025	69,996	-	5,850	37,683	518	-	114,047
Gwerth net ar y llyfrau							
Ar 31 Gorffennaf 2025	144,542	3,722	12,682	4,114	421	527	166,008
Ar 31 Gorffennaf 2024	143,455	97	13,047	7,630	616	500	165,345

Cafodd tir ac adeiladau sy'n eiddo i Goleg Sir Gâr eu hailbrisio yn 1998 am gost amnewid dibrisiedig gan Cooke ac Arkwright, cwmni o syrfewyr siartredig annibynnol. Ar ôl mabwysiadu FRS 102, mae eiddo sydd wedi'i ailbrisio wedi'i drin fel cost tybiedig. Mae'r dadansoddiad o gost neu brisiad yr asedau sefydlog diriaethol ar 31 Gorffennaf 2025 fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Tir ac adeiladau prydles £'000	Offer, gosodiadau a ffitiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Da byw £'000	Cyfansymiau £'000
Cost neu brisiad							
Prisiad yn 1998	19,716	-	-	-	-	527	20,243
Cost	194,822	3,722	18,532	41,797	939	-	259,812
	214,538	3,722	18,532	41,797	939	527	280,055

NODIADAU I’R CYFRIFON

11. Asedau Sefydlog Diriaethol (Y Brifysgol)

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Tir ac adeiladau prydles	Offer, gosodiadau a ffitiadau	Cerbydau modur	Da byw	Cyfansymiau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad i’r brifysgol							
Ar 1 Awst 2024	137,969	97	18,532	22,520	981	-	180,100
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	3,175	3,722	-	1,005	-	-	7,902
Trosglwyddiadau	91	(97)	-	6	-	-	-
Trosglwyddo o eiddo buddsoddi	1,448	-	-	-	-	-	1,448
Gwarediadau	-	-	-	-	(41)	-	(41)
Gwrthdroi amhariad blaenorol	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2025	142,682	3,722	18,532	23,531	941	-	189,409
Dibrisiant cronedig							
Ar 1 Awst 2024	34,295	-	5,486	17,595	363	-	57,739
Tâl am y flwyddyn	3,674	-	365	3,821	188	-	8,048
Gwarediadau	-	-	-	-	(34)	-	(34)
Ar 31 Gorffennaf 2025	37,969	-	5,851	21,416	517	-	65,753
Gwerth net ar y llyfrau							
Ar 31 Gorffennaf 2025	104,713	3,722	12,681	2,115	424	-	123,656
Ar 31 Gorffennaf 2024	103,674	97	13,046	4,925	618	-	122,361

12. Asedau treftadaeth: Cyfunol a Phrifysgol

Mae'r asedau treftadaeth yn cynnwys casgliad o lawysgrifau, traethodynnau, incwnabwla a llyfrau printiedig prin. Cafodd yr asedau eu hailbrizio'n ffurfiol ar 31 Gorffennaf 2014 gan Bernard Quaritch Ltd, gan arwain at gynnydd o £250k mewn gwerth. Mae'r asedau wedi'u prisio fel rhan o yswiriant y Brifysgol heb unrhyw gynnydd mewn gwerth wedi'i nodi, ac nid yw ailbrizio ffurfiol ar gyfer cyfrifon 2025 wedi'i ystyried yn angenrheidiol ar y sail hon.

Mae gan ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan dâl nofiol o £2m dros asedau treftadaeth y Brifysgol.

Mae asedau treftadaeth y Brifysgol yn cael eu cadw mewn rhandy a adeiladwyd yn bwrpasol i’r llyfrgell ar Gampws Llanbedr Pont Steffan ac fe'u rheolir gan 2 aelod o staff arbenigol, cymwysedig. Pan fo angen unrhyw waith cadwraeth ar yr asedau, gwneir hyn gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Ni chafodd unrhyw asedau treftadaeth eu caffael na’u gwaredu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae manylion casgliad y Brifysgol ar gael ar wefan y Brifysgol <https://uwtsd.ac.uk/rbla/a-z-list-of-collections/>

13. Eiddo Buddsoddi

	Eiddo rhydd-ddaliadol	
	Cyfunol £’000	Y Brifysgol £’000
Balans ar 1 Awst 2024	10,197	9,512
Ychwanegiadau	244	244
Trosglwyddo i asedau sefydlog	(1,448)	(1,448)
Ailbrisiad	(3,833)	(3,723)
Balans ar 31 Gorffennaf 2025	5,160	4,585

Mae'r eiddo buddsoddi yn cael eu prasio gan brisiwr cofrestredig RICS annibynnol yn flynyddol gyda'r prisiad diweddaraf yn ddyddiedig 31 Gorffennaf 2025. Mae sail prasio'r eiddo buddsoddi ar werth teg fel y'i diffinnir o dan FRS102 gyda thybiaeth bod gwerth gwerthu'r eiddo yn amodol ar unrhyw brydlesi presennol. Mae’r swm ailbrisio a gydnabuwyd yn 2025 yn ymwneud ag ailbrisio’r eiddo buddsoddi i werth teg yn unol â phrisiad a baratowyd gan Savilles.

Nid oes gan y Brifysgol unrhyw gyfyngiad ar y defnydd o'r incwm a gynhyrchir o'r eiddo buddsoddi ac ar 31 Gorffennaf 2025 nid oes ganddi unrhyw rwymedigaethau cytundebol ar gyfer datblygu neu gynnal a chadw'r eiddo yn y dyfodol.

14. Buddsoddiadau anghyfredol

Buddsoddiadau anghyfredol: Cyfunol

	Buddiant mewn Menter ar y Cyd (Nodyn 15) £’000	Buddsodd- iadau asedau sefydlog eraill £’000	Cyfanswm £’000
Ar 1 Awst 2024	661	236	897
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	-	-	-
Amhariad	-	12	12
Ar 31 Gorffennaf 2025	661	248	909
Cyfran o gronfeydd ar ôl caffael			
Ar 1 Awst 2024	(143)	-	(143)
Elw a gedwir llai colledion	39	-	39
Ar 31 Gorffennaf 2025	(104)	-	(104)
Balans ar 31 Gorffennaf 2025	557	248	805
Balans ar 31 Gorffennaf 2024	518	236	754

Buddsoddiadau anghyfredol: Y Brifysgol

	Buddsoddi mewn Is- gwmnïau £’000	Cyfanswm £’000
Ar 1 Awst 2024	-	-
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	-	-
Amhariad	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2025	-	-

15. Buddsoddi mewn Menter ar y Cyd

Mae gan un o is-gwmnïau'r Brifysgol, UWTSD Investments Limited, gyfran o 50% o OSTC TSD LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Mae hon yn fenter ar y cyd sy'n eiddo i UWTSD Investments Limited ac OSTC, Cwmni Masnachol. Mae'r buddsoddiad yn OSTC TSD LLP yn rhannol mewn cyfalaf cyfranddaliadau (£300,000 (2023: £300,000)) ac yn rhannol fel benthyciad anwarantedig, yn ad-daladwy ar gais, gyda chyfradd llog o 4% dros y gyfradd sylfaenol (£510,051 (2024: £471,290)). Mae'r cynnydd o ganlyniad i log cronedig o £38,761 a enillwyd yn ystod y cyfnod (2024: £41,634).

Mae'r trefniant yn cael ei drin fel menter ar y cyd a chaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull ecwiti, fel bod y buddsoddiad yn cael ei gofnodi ar gost i ddechrau ac yn cael ei addasu wedyn i adlewyrchu cyfran 50% y Brifysgol o elw neu golled net y fenter ar y cyd. Mae cyfran y Grŵp o golled weithredol y fenter ar y cyd yn natganiadau ariannol diweddaraf y fenter ar y cyd (dyddiedig 31 Rhagfyr 2024) yn £dim (2024: £dim). Mae buddiant y Grŵp yn y fenter ar y cyd yn £510,051 (2024: £476,458), sy'n cynnwys y benthyciad fel y datgelwyd uchod, ynghyd â buddsoddiad cyfalaf yn ei fantolen gyfunol.

16. Stoc

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Nwyddau gorffenedig	914	392	583	393
Da byw i'w hailwerthu	-	-	11	-
	914	392	594	393

Mae stoc yn cael ei brisio ar yr isaf o'i gost a'i werth gwireddadwy net ar y sail cyntaf i mewn, cyntaf allan (FIFO).

17. Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:				
- Dyledwyr masnach	30,556	30,237	26,474	26,187
- Rhagdaliadau ac incwm cronedig	8,214	3,985	7,565	3,949
- Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau	-	11,229	-	10,963
- Deilliadau	-	-	-	-
	38,770	45,451	34,039	41,099

Mae'r symiau sy'n ddyledus o is-gwmnïau yn gyfanswm o falansau masnachu sy'n ddi-log ac yn ad-daladwy ar gais. Mae'r Brifysgol wedi darparu llythyrau o gefnogaeth i'w his-gwmnïau lle mae'n cadarnhau na fydd y balansau dyledwyr yn cael eu galw i mewn yn ystod cyfnod o 12 mis o ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Yn unol â hynny, ystyrir bod y balansau hyn yn dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn. Mae cymhwyso hyn yn rhoi'r rhaniad canlynol rhwng symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill				
- Dyledus o fewn blwyddyn	38,769	34,222	34,039	30,136
- Dyledus ar ôl blwyddyn	-	11,229	-	10,963
Cyfanswm	38,769	45,451	34,039	41,099

NODIADAU I'R CYFRIFON

18. Buddsoddiadau

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiad tymor byr mewn cyfranddaliadau	341	339	1,626	1,625
Adneuon tymor byr	15	-	15	-
	356	339	1,641	1,625

Mae'r Brifysgol yn dilyn polisi buddsoddi ceidwadol gyda phwyslais ar sicrhau cynnydd yng ngwerth cyfalaf go iawn pob cronfa o fewn y portffolio bob blwyddyn. Disgwylir targed o 5% o dwf gwirioneddol, gyda 3.5% yn dwf incwm ac 1.5% yn dwf cyfalaf.

Mae'r buddsoddiadau’n cael eu dal o fewn y Brifysgol a chronfeydd gwaddol cyfunol. Manylir ar y symudiad mewn gwerth teg ar y buddsoddiadau hyn yn [Nodyn 22](#).

19 Credydwyr: symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gorddrafft Banc	-	-	5,457	5,457
Benthyciadau gwarantedig (nodyn 20)	2,464	2,464	2,573	2,573
Cyfleuster credyd cylchol	7,000	7,000	-	-
Benthyciadau anwarantedig (nodyn 20)	65	65	-	-
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid (nodyn 20)	808	596	996	835
Credydwyr masnach	10,918	8,855	12,008	10,051
Nawdd cymdeithasol a threthiant arall sy'n daladwy	2,381	1,731	1,056	512
Croniadau ac incwm gohiriedig	46,236	41,845	44,795	37,685
Symiau sy’n ddyledus i is-gwmnïau	-	9,602	-	9,659
	69,872	72,158	66,885	66,772

Mae'r symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau yn gyfanswm o falansau masnachu sy'n ddi-log ac yn ad-daladwy ar gais.

Wedi'u cynnwys gyda chroniadau ac incwm gohiriedig mae'r eitemau canlynol o incwm sydd wedi'u gohirio nes bod amodau penodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni:

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau Cyrff Ariannu	-	-	-	-
Incwm Grant Arall	2,290	1,491	3,349	2,481
Incwm Grant Cyfalaf	-	-	-	-
Incwm Myfyrwyr	29,495	29,495	26,626	26,626
Incwm Arall	2,626	2,608	2,677	2,657
	34,411	33,594	32,652	31,764

Mae'r benthyciad gwarantedig yn cynnwys benthyciad tymor gyda swm cyfalaf o £2 filiwn a llog cronedig o £464k a chyfleuster credyd cylchol gyda swm cyfalaf o £7m. Roedd taliad cyfalaf o £500k yn ddyledus ar 1 Awst 2025 gydag ad-daliadau dilynol o £500k yn ddyledus ar 1 Tachwedd 2025, ar 1 Chwefror 2026 ac 1 Ebrill 2026.

NODIADAU I'R CYFRIFON

20. Credydwyr: Symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025		Blwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
	£’000	£’000	£’000	£’000
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid	941	520	1,155	834
Benthyciadau gwarantedig	26,000	26,000	28,000	28,000
Benthyciadu anwarantedig	1,275	1,275	-	-
	28,216	27,795	29,155	28,834
Dadansoddiad o rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid				
Dyledus o fewn blwyddyn (nodyn 19)	808	596	996	835
Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd	941	520	1,155	834
Cyfanswm rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid	1,749	1,116	2,151	1,669
Dadansoddiad o fenthyciadau gwarantedig:				
Dyledus o fewn blwyddyn neu ar gais - benthyciad tymor (nodyn 19)	2,464	2,464	2,573	2,573
Dyledus o fewn blwyddyn neu ar gais – RCF (nodyn 19)	7,000	7,000	-	-
Dyledus rhwng un a dwy flynedd	2,000	2,000	2,000	2,000
Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd	24,000	24,000	26,000	26,000
Dyledus mewn pum mlynedd neu fwy	-	-	-	-
Cyfanswm benthyciadau gwarantedig	35,464	35,464	30,573	30,573
Dadansoddiad o fenthyciadau anwarantedig:				
Dyledus o fewn blwyddyn neu ar gais (nodyn 19)	65	65	-	-
Dyledus rhwng un a dwy flynedd	56	56	-	-
Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd	295	295	-	-
Dyledus mewn pum mlynedd neu fwy	924	924	-	-
Cyfanswm benthyciadau anwarantedig	1,340	1,340	-	-

Roedd y benthyciadau ar 31 Gorffennaf 2025 yn cynnwys:

Rhoddwr benthyciad	Offeryn	Swm	Tymor	Cyfradd Llog	Benthyciwr
		£’000		%	
HSBC	Benthyciad tymor	38,000	Hyd at Orffennaf 2034	1.75% dros y gyfradd SONIA gyfredol	Y Brifysgol
HSBC	Cyfleuster credyd cylchol	30,000	Hyd at Orffennaf 2034	1.75% dros y gyfradd SONIA gyfredol	Y Brifysgol
Salix Finance	Gorddrafft	1,332	Hyd at Fai 2025	2.05%	Y Brifysgol
Negodwyd tymor a chyfradd y benthyciad tymor a'u halinio â'r cyfleuster credyd cylchol ym mis Gorffennaf 2025.					

Tynnwyd £7m o'r cyfleuster credyd cylchol ar 31 Gorffennaf 2025 fel y nodwyd yn nodyn 19

Roedd y benthyciadau ar 31 Gorffennaf 2024 yn cynnwys:

Rhoddwr benthyciad	Offeryn	Swm	Tymor	Cyfradd Llog	Benthyciwr
		£’000		%	
HSBC	Benthyciad tymor	38,000	Hyd at Chwefror 2033	2.35% dros y gyfradd SONIA gyfredol	Y Brifysgol
Barclays	Gorddrafft	5,457	Hyd at Fai 2025	1.95% dros y gyfradd sylfaen gyfredol	Y Brifysgol

Daeth y cyfleuster gorddrafft i ben ym mis Mai 2025 ac ni chafodd ei adnewyddu

21. Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

Cyfunol

	Arall	Cynyddiadau pensiwn adeg terfynu	Unioni’r cynllun pensiwn	Cyfanswm y darpariaethau
	£’000	£’000	£’000	£’000
Ar 1 Awst 2024	448	750	38	1,236
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	(301)	-	(301)
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	-	39	-	39
Ar 31 Gorffennaf 2025	448	488	38	974

Mae'r ddarpariaeth arall o £448K yn ymwneud ag ad-daliad posibl o Gronfeydd Ewropeaidd (ESF) mewn perthynas â methodoleg adfer gorbenion un o’r is-gwmnïau.

Mae'r ddarpariaeth cynyddiadau pensiwn yn ymwneud â staff yn y Brifysgol a'i his-gwmnïau sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth ac ymrwymïadau ar gyfer costau ad-drefnu ar ddyddiad y fantolen. Mae'r ddarpariaeth wedi'i hailgyfrifo yn unol â'r cylchlythyr LSC diweddaraf.

Mae'r ddarpariaeth unioni pensiwn yn rhymedigaeth bosibl ar gynllun pensiwn mewnol y Brifysgol.

Y Brifysgol

	Cynyddiadau pensiwn adeg terfynu	Unioni’r cynllun pensiwn	Cyfanswm y darpariaethau
	£’000	£’000	£’000
Ar 1 Awst 2024	427	38	465
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(203)	-	(203)
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	-	-	-
Ar 31 Gorffennaf 2025	224	38	262

Mae’r cynyddiadau pensiwn a'r darpariaethau unioni pensiwn fel y nodwyd yn flaenorol.

22. Cronfeydd gwaddol

Cyfunol

Mae asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn:

	Gwaddol parhaol anghyfyngedig £'000	Gwaddol parhaol cyfyngedig £'000	Gwaddol gwariadwy cyfyngedig £'000	Cyfanswm 2025 £'000	Cyfanswm 2024 £'000
Balans ar 1 Awst					
Cyfalaf	2,500	4,751	25	7,276	7,453
Incwm cronedig	106	2,753	-	2,859	2,668
	2,606	7,504	25	10,135	10,121
Gwaddolion newydd	-	(2)	-	(2)	-
Incwm buddsoddi	4	146	2	152	344
Gwariant	(5)	(115)	(1)	(121)	(156)
Cynnydd / (gostyngiad) yng ngwerth marchnad buddsoddiadau	-	(27)	-	(27)	(174)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn	(1)	2	1	2	14
Balans ar 31 Gorffennaf	2,605	7,506	26	10,137	10,135
Cynrychiolwyd gan:					
Cyfalaf	2,499	4,721	26	7,246	7,276
Incwm cronedig	106	2,785	-	2,890	2,859
	2,605	7,506	26	10,137	10,135
Dadansoddiad yn ôl y math o bwrpas:					
Darlithyddiaethau	-	3,941	-	3,941	3,941
Cymrodoriaethau, ysgoloriaethau a chronfeydd gwobrau	23	1,717	26	1,766	1,764
Cyffredinol	2,582	1,847	-	4,430	4,430
	2,605	7,506	26	10,137	10,135
Dadansoddiad yn ôl ased					
Buddsoddiadau	23	2	26	356	1,335
Arian parod	777	1,802	-	2,065	1,958
Asedau cyfredol eraill	1,805	5,710	-	7,716	6,937
	2,605	7,506	26	10,137	10,135

Y Brifysgol

Mae asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn:

